



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Adroddiad Monitro Blynyddol
Safonau'r Gymraeg
1af Ebrill 2023 – 31ain Mawrth 2024



Awdur: Carys Lloyd-Jones – Gwasanaeth Diwylliant a Dysgu Gydol Oes

Dyddiad Cyhoeddi –

Pwyllgor Iaith – 10/7/2024

Cymeradwywyd gan y Cabinet – 17/7/2024

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
Gallwn ddarparu'r adroddiad hwn mewn fformatau eraill ar gais.
Cysylltwch â'r Swyddog Polisi Iaith fel y nodir isod os gwelwch yn dda:

Carys Lloyd-Jones
Swyddog Polisi Iaith Gymraeg / Welsh Language Policy Officer
Cyngor Sir Ceredigion County Council
Neuadd Cyngor Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
SA46 0PA

E bost: cymraeg@ceredigion.gov.uk

Mynegai

Adran 1: Cyd-destun: dyletswydd y Safonau

Adran 2: Camau gweithredu yn ystod y flwyddyn i gryfhau cydymffurfiaeth gyda'r Safonau:

- Safonau Cyflenwi Gwasanaethau
- Safonau Llunio Polisi
- Safonau Gweithredu / Safonau Cadw Cofnodion: yn cynnwys data siliau iaith, hyfforddiant a recriwtio
- Safonau Hybu

Adran 3: Adrodd ar y weithdrefn gwyno corfforaethol

Adran 4: Casgliadau

- Atodiad 1: Sgiliau iaith y gweithlu fesul gwasanaeth

ADRAN 1: **Cyd-destun – Dyletswydd y Safonau**

Pwrpas yr Adroddiad

Dyma adroddiad blynyddol Cyngor Sir Ceredigion ar weithredu Safonau'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'n rhoi gwybod sut yr aethom ati i gydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd, ynghyd ag adrodd ar ein dyletswyddau i hybu a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu ein gwasanaethau ar draws y Cyngor.

Paratowyd yr Adroddiad yn unol â gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, safonau 158, 164 a 170.

Cefndir

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu fframwaith gyfreithiol i osod dyletswydd ar Gyngor Sir Ceredigion, ymhlith sefydliadau cyhoeddus eraill, i gydymffurfio â Safonau yn ymwneud â'r Iaith Gymraeg. Pwrpas y Safonau yw:

- Rhoi mwy o eglurder i sefydliadau ar eu dyletswyddau am yr Iaith Gymraeg
- Rhoi mwy o eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg
- Sicrhau mwy o gysondeb o wasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd

Mae 5 Prif Safon gyda chyfanswm o **167** is-safonau wedi'u gosod ar Gyngor Sir Ceredigion drwy Hysbysiad Cydymffurfio, gyda'r dyddiad gweithredu cyntaf 30 Fawrth 2016. Mae rhestr lawn y Safonau mae gofyn i Gyngor Sir Ceredigion gydymffurfio â nhw ar gael ar wefan gorfforaethol y Cyngor. Dilynwch y ddolen isod: [safonau-iaith-gymraeg-cyngor-sir-ceredigion-hysbysiad-cydymffurfio.pdf](#)

Mae dyletswydd statudol ar Gyngor Sir Ceredigion yn golygu:

- Mae'n ofynnol i'r Cyngor weithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg wrth drefnu ei wasanaethau, ynghyd ag adrodd ar gydymffurfiaeth yn flynyddol.
- At hyn mae Safonau 146/145 yn nodi bod rhaid i'r Cyngor gyhoeddi a gweithredu Strategaeth pum mlynedd sy'n rhoi gwybod sut y bydd y Cyngor yn hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg o fewn yr ardal ehangach; gan osod targed o ran cynnal neu gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

Y Weinyddiaeth Wleidyddol 2023 - 2024

Rydym yn parhau i weinyddu yr un system wleidyddol yng Ngheredigion. Mae ffigurau'r pleidiau fel a ganlyn;

- Plaid Cymru: 21
- Democratiaid Rhyddfrydol: 7 sedd
- Annibynnol: 9 Sedd
- Di-grŵp: 1 Sedd

Y Cyngorydd Bryan Davies yw Arweinydd y Cyngor, a'r Cyngorydd Catrin M S Davies yn Aelod Cabinet dros y Gymraeg a Diwylliant.

Trefniadau Goruchwylio Mewnol

Mae'r cyfrifoldeb dros gadw trosolwg strategol ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg gyda'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Diwylliant a Dysgu Gydol Oes. Y Swyddog Polisi Iaith Gymraeg sydd â chyfrifoldeb dros y gwaith o ymdrin yn weithredol â materion y Gymraeg o ddydd i ddydd o fewn y Cyngor. Caiff unrhyw benderfyniadau Polisi eu craffu gan y Grŵp Arweiniol, sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, y ddau Gyfarwyddwr Strategol ynghyd â'r tri ar ddeg Swyddog Arweiniol Corfforaethol.

Caiff Adroddiad Monitro Safonau'r Gymraeg ei graffu gan Aelodau'r Pwyllgor Iaith, a fydd yn argymhell cynigion i Gabinet y Cyngor. Mae'r Pwyllgor Iaith, yn cynnwys cynghorwyr trawsbleidiol ac yn cael ei gadeirio gan Aelod Cabinet dros y Gymraeg a Diwylliant. Mae'r Pwyllgor Iaith yn darparu cyfeiriad gwleidyddol ar gyfer hybu a hwyluso'r iaith Gymraeg yng Ngheredigion, ac i gefnogi ei ymdrechion i wella defnydd o'r Gymraeg drwy'r sefydliad.

Bydd yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo'n derfynol gan Bwyllgor Cabinet y Cyngor, ac yna'n cael ei gyhoeddi ar wefan gorfforaethol y Cyngor.



Mae'n ofynnol cyhoeddi dogfen sy'n esbonio sut bydd y Cyngor yn cydymffurfio gyda gofynion Safonau'r Gymraeg, gellir darllen mwy am drefniadau'r Cyngor i gwrdd â gofynion y Safonau ar y wefan gorfforaethol, drwy'r ddolen isod: [cydymffurfio-a-safonau-iaith-ceredigion.pdf](#)

Dulliau Cyngor Sir o Weithredu

Cytunwyd ar Strategaeth Gweithio Hybrid a Pholisi Hybrid Dros Dro ym mis Gorffennaf 2022. Mae'r strategaeth yn cyflwyno'r weledigaeth a'r dulliau cysylltiedig a roddir ar waith i sicrhau bod gan Gyngor Sir Ceredigion weithlu sydd â'r sgiliau a'r gallu i weithio mewn ffordd sy'n addas at ddyfodol ein sefydliad, gan alluogi gweithwyr i weithio'n effeithiol, yn gynhyrchol a diogel o'r swyddfa neu o'r cartref. Mae llai na 10 wedi dewis peidio manteisio ar weithio'n hybrid. Mae'n rhaid cydnabod bod gweithio o bell wedi cynnig cyfleoedd newydd i staff, ond o bosib mae'n cael effaith llai cadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg.

Mae polisi newydd parhaol i'w gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Mehefin 2024. Bwriedir mabwysiadu model hybrid ar gyfer y dyfodol rhagweladwy.

Cyhoeddi'r Adroddiad

Mae'n ofynnol bod yr Adroddiad Blynyddol hwn yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan gorfforaethol erbyn 30 Mehefin.

Mae'r Adroddiad yn adrodd ar arfer da, ynghyd â nodi sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio a'r dosbarth o Safonau fel a ganlyn:

- Safonau Darparu Gwasanaethau
- Safonau Llundio Polisi
- Safonau Gweithredu Mewnol
- Safonau Hybu

Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno data ar y dangosyddion perfformiad gofynnol, sef y Safonau Cadw Cofnodion, hynny yw:

Safon		
151	Sgiliau Iaith Staff	Nifer y staff sydd â sgiliau yn y Gymraeg, fesul lefel ALTE yn ystod y flwyddyn dan sylw
154	Recriwtio i Swyddi Gwag	Nifer y swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn sy'n gofyn am sgiliau iaith Gymraeg, ac a gategoreiddiwyd gyda lefelau ALTE
152	Hyfforddiant Dysgu neu Wella Sgiliau Iaith	Nifer yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi naill ai i ddysgu neu wella eu sgiliau iaith Gymraeg
152	Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg	Nifer y staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant a gynigwyd gan Cyngor y Gymraeg yn ystod y flwyddyn
170	Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd	Nifer y cwynion a dderbyniwyd sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg

ADRAN 2: **Camau gweithredu yn ystod y flwyddyn i gryfhau cydymffurfiaeth gyda'r Safonau:**

Casglwyd y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr adroddiad hwn o ganlyniad i'r monitro parhaus y mae'r Cyngor yn ei gynnal ar ei Wasanaethau.

Isod ceir rhestr o'r prif gyflawniadau yn ystod y cyfnod adrodd er mwyn cryfhau cydymffurfiaeth:

Prif Gyflawniadau:

- Mae gan 59% o staff y gallu i sgwrsio ar lafar yn Gymraeg (sef ALTE Lefel 3,4 a 5), mae hyn yn gyson a phroffiliau blaenorol o sgiliau'r gweithle.
- Mae 81 o staff y Cyngor wedi cael cyfle i ddysgu Cymraeg drwy gynllun Tiwtor Cymraeg y gweithle.
- Mae 10 aelod o staff y Cyngor wedi dod yn siaradwyr newydd, drwy gwblhau Cwrs Uwch drwy gynllun Tiwtor Cymraeg y gweithle.
- Cynnydd yn nifer o weithwyr y Cyngor sy'n manteisio ar gynllun Tiwtor Cymraeg y gweithle.
- Cynhaliwyd ymarfer mewnol i hunanasesu perfformiad gwasanaethau'r Cyngor gyferbyn â gofynion Safonau'r Gymraeg.
- Yn unol â gofynion Safon 94, datblygu a chyhoeddi Polisi'r Gymraeg ar Ddyfarnu Grantiau, sy'n cynnwys rhestr wirio. Oddi ar cymeradwyo'r Polisi ym mis Ionawr 2023, rydym wedi bod yn cadw cofnod o'r broses dyfarnu grantiau; rydym yn gobeithio medru cofnodi'r defnydd a wneir o'r Gymraeg o ganlyniad derbyn y grant.
- Cynllun Gweithredu 'Mwy na Geiriau' mewn lle, er mwyn cynyddu defnydd y Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau y Sector Gofal.
- Sicrhau bod y Gymraeg yn rhan integredig o Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion 2022-27.
- Ymgynghori gyda rhanddeiliaid ar gyfer paratoi i gyhoeddi Strategaeth Iaith am y 5 mlynedd nesaf.
- Cafwyd Cymorth gan **'Gynllun Grantiau Bach Gwaith Ieuenctid Cymraeg'**, Cyngor Sir Ceredigion i gryfhau ein gwaith o gefnogi a chynyddu y nifer y gwasanaethau gwaith ieuenctid sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn 2023-24, cafwyd 11 cais mewn ymateb i'r cynllun, cyfanswm o £84,018.
- Cyhoeddi Strategaeth Iaith Ceredigion 2024-29.

- Creu adnoddau i groesawu newydd ddyfodiaid i'r sir fel rhan o brosiect 'Croeso i Geredigion.
- Creu e-newyddlen misol newydd '#Gwena' i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg i staff y Cyngor
- Yn ystod y flwyddyn adrodd cafwyd 110 cais am enwi eiddo newydd gyda 102 o'r ceisiadau yma am enwi ei tai yn enwau Cymraeg.
- Gweithredu Canllaw Asesu Effaith Integredig, er mwyn cynorthwyo swyddogion i nodi unrhyw effaith ar y Gymraeg wrth gyflwyno penderfyniadau polisi.
- Creu cordyn gwddf newydd ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion i ddynodi dysgwyr Cymraeg.
- Mae'r Cyngor wedi darparu cefndiroedd at ddefnydd y staff sy'n arddangos swigen siarad oren os yw aelod yn medru'r Gymraeg. (Safonau 67/68)
- Mae 100% o'r Tîm Clic – Cyswllt Cwsmeriaid yn medru'r Gymraeg (lefel ALTE 3, 4 neu 5)

Cydymffurfio â Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1-87)

Mae'r set o safonau Cyflenwi Gwasanaethau yn nodi sut mae'n ofynnol i'r Cyngor ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd, fel bod modd i siaradwyr Cymraeg gael mynediad dirwystyr at wasanaethau Cymraeg.; er enghraifft wrth anfon gohebiaeth a chyhoeddiadau, delio a galwadau ffôn, darparu gwasanaethau ar-lein neu wyneb yn wyneb.

Er mwyn cryfhau cydymffurfiaeth gyda'r dosbarth o Safonau yn ymwneud â **chyflenwi gwasanaethau**, mae'r Cyngor wedi cymryd y camau gweithredu canlynol yn ystod y flwyddyn:

Rheoli Perfformiad

Ar ddechrau 2024 gwnaeth Comisiynydd y Gymraeg gyhoeddi y byddai dull mwy rhagweithiol o 'gyd-reoleiddio' yn cael ei fabwysiadu. Wrth wneud y cyhoeddiad hwnnw, fe nododd fwriad i ddatblygu a gosod deilliannau rheoleiddio clir yn ystod 2024. Bwriad Comisiynydd y Gymraeg yw drwy gyflwyno'r deilliannau rheoleiddio yma yw iddynt, ymysg pethau eraill:

- osod Safonau'r Gymraeg a'n gwaith rheoleiddio yng nghyd-destun y weledigaeth genedlaethol o gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg a chynyddu defnydd yr iaith.
- darparu datganiadau tryloyw cyhoeddus o'r hyn yr ydym yn bwriadu ei gyflawni, a sut y byddwn yn gallu dangos pan fyddwn wedi ei gyflawni.
- sicrhau bod ein gweithgareddau rheoleiddio yn canolbwyntio ar ganlyniadau i ddefnyddwyr y Gymraeg ac yn cael y traweffaith mwyaf ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.
- annog sefydliadau i daro'r cydbwysedd cywir rhwng ffocws ar gydymffurfiaeth caeth a sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr y Gymraeg.

Yn Adroddiad Sicrwydd 'Codi'r Bar' 2022-23 mae Comisiynydd y Gymraeg yn awyddus "i weithio yn agos gyda sefydliadau i gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Rydym yn ymwybodol bod llawer o bobl yn derbyn addysg Gymraeg, ond nad ydynt yn defnyddio'r iaith ar ôl gadael yr ysgol."

Yn sgil hyn mae hefyd yn gweld y "gweithle'n lle allweddol i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg ac i roi cyfleoedd iddynt ddefnyddio'r iaith yn broffesiynol ac yn anffurfiol. Mae felly'n allweddol codi trafodaeth ynghylch y potensial sydd i yrru newid yng Nghymru drwy gyfrwng polisïau ar ddefnydd o'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol sefydliadau cyhoeddus."

Unwaith yn rhagor, yn dilyn cydsyniad gan y Grŵp Arweiniol, fe wnaethom gynnal adolygiad ynghylch detholiad o Safonau sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth, yn ogystal â rhai o'r Safonau Gweithredu sy'n ymwneud â gweinyddiaeth fewnol. Drwy ymgysylltu gyda'r 13 Swyddog Arweiniol Corfforaethol o fewn y Cyngor Sir sgoriwyd eu gwasanaeth gyferbyn ag agweddau o'r Safonau Iaith. Mae hyn yn ffordd effeithiol i geisio mesur cydymffurfiaeth gyfredol. Hyfryd yw medru rhannu arferion da ynghyd â'r heriau sydd i'w gweld o fewn y fewn y gwasanaethau. Rhestrir y 13 gwasanaeth isod.

Mae'r hunan asesiad hwn gyfle i fyfyrwyr ac i anelu at geisio codi ymwybyddiaeth y 13 prif wasanaeth ynghylch ymrwymiadau'r Cyngor o ran Safonau'r Gymraeg. Mae'r asesiadau hefyd yn cynorthwyo'r gwasanaethau i rannu arfer da, i adnabod heriau, i ddatblygu rhaglen ymyraethau a hyfforddiant perthnasol, yn ogystal â pharatoi er mwyn gallu ymateb yn effeithiol i'r galw am hunanasesiad corfforaethol gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Gwasanaethau Cyngor Sir Ceredigion		
		
Gwasanaeth Cyfreithiol a Llywodraethu	Gwasanaeth Democrataidd	Cyllid a Chaffael
		
Cyswllt Cwsmeriaid, TGCh a Digidol	Dysgu Gydol Oes	Economi ac Adfywio
		
Pobl a Threfniadaeth	Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	Porth Gofal
		
Porth Cymorth Cynnar	Porth Cynnal	Prifffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
		
	Gwasanaeth Ysgolion	

Gofynnwyd i Swyddogion Arweiniol roi sgôr gyferbyn a'u lefel o gydymffurfiaeth fel a ganlyn:

Llai na 25%	25 – 50%	50 – 90%	90%+
-------------	----------	----------	------

Yn gyffredinol, cofnodwyd lefelau uchel o sicrwydd, bron yn ddieithriad aseswyd perfformiad i fod naill ai ar lefel tri, sef cydymffurfiaeth rhwng 50%- 90% neu lefel pedwar (sef y lefel uchaf)

90%+ sgôr cydymffurfiaeth. Y prif reswm am hyn yw hyder Swyddogion Arweiniol Corfforaethol bod gwasanaethau wedi'u cynllunio mewn ffordd sy'n golygu bod siaradwyr Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg yn ôl y galw. (gweler esiamplau o arfer dda yn ogystal â heriau mewn gwasanaethau islaw)

Dim ond 1 gwasanaeth oedd yn pryderu ynghylch niferoedd siaradwyr Cymraeg a oedd ar gael i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw yn y Gymraeg, sef Porth Gofal. Mae'r Cyngor wedi tynnu sylw at y ffaith ei bod hi'n anodd recriwtio ym maes Gofal Cymdeithasol, lle mae prinder Swyddogion sydd wedi'u cymhwyso'n broffesiynol, hyn heb sôn am eu gallu yn y Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi mynd ati yn rhagweithiol i geisio gau'r bwlch hwn, drwy gynnig rhaglen hyfforddiant gofal cymdeithasol yn fewnol, drwy bartneriaeth gyda'r Brifysgol Agored. Mae'r cwrs gradd Gwaith Cymdeithasol gyda'r Brifysgol Agored yn cymryd 3 blynedd i'w chwblhau ar hyn o bryd mae gennym yr hyfforddeion canlynol yn astudio ar gyfer y cymhwyster:

Gwaith Cymdeithasol gyda'r Brifysgol Agored			
Nifer yr Hyfforddeion	Lefel	Siarad Cymraeg	Cymhwyso erbyn
5	1	1	Hydref 2025
4	2	2	Hydref 2024

At hyn mae'r Cyngor hefyd yn darparu cyfle i Swyddogion gyflawni Tystysgrif mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol, mae'r cwrs hwn yn cwmpasu'r ddau fodiwl cyntaf y cwrs gradd Gwaith Cymdeithasol. Yn bur gyson, unwaith y bydd Swyddogion wedi cwblhau'r cwrs hwn, maent yn symud ymlaen i wneud y cwrs Gradd Gwaith Cymdeithasol, naill ai fel un o'n Hyfforddeion neu fel Myfyriwr Annibynnol. Eleni rydym yn cynnig 4 lle ar y cwrs Tystysgrif, a'r nod yw sicrhau bod o leiaf 2 ohonynt yn medru'r Gymraeg.

Yn rhan o'r ymarfer hunanasesiad Safonau'r Gymraeg, roedd cyfle i Swyddogion Arweiniol Corfforaethol rhannu esiamplau o arfer dda, gyda sawl gwasanaeth yn mynd ati'n rhagweithiol i reoli eu perfformiad eu hunain, nodir nifer o'r esiamplau hyn isod:

- Agorir holl gyfarfodydd y Tîm yn Gymraeg gydag eitem ar yr agenda safonol i atgoffa'r staff o'r Safonau Cymraeg.
- Diwylliant dwyieithog yng nghyfarfodydd mewnol gwasanaethau lle mae'r staff i gyd yn gyfforddus yn siarad yn eu dewis iaith ar y pwynt cyswllt cyntaf.
- Mae'r defnydd o'r iaith o fewn y gwasanaeth yn organig ac yn naturiol - iaith ddiodyn ar gyfer y rhai sy'n ei defnyddio.
- Cymorth a chyfleoedd a ddarperir o fewn y gwasanaeth i ddatblygu gallu, hyder a defnydd o'r iaith yn rhan o'r amgylchedd bob dydd.
- Bu'r Tiwtor Cymraeg Gwaith yn cyflwyno Sesiynau Cymraeg pwrpasol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n cynnal Aseiad Lles Gorau Mae cyrsiau byr (3 sesiwn yr un) wedi'u darparu ar gyfer darparwyr gofal cymdeithasol allanol ar draws Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin.
- Staff newydd yn cyflawni arholiad Cymraeg. Staff o fewn timoedd wedi bod yn chwarae rhan fel "Ffrind iaith" i gefnogi cyn yr arholiad.

- Mae pob datganiad i'r wasg yn ddwyieithog a pob neges ar y cyfryngau cymdeithasol yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae Swyddfa'r Wasg yn rhoi negeseuon yn rheolaidd ar y cyfryngau cymdeithasol yn hybu'r tudalennau Cymraeg.
- Rydym yn parhau i ymdrechu i gynyddu nifer y gofalmwyr maeth cyfrwng Cymraeg wedi'u cymeradwyo yng Ngheredigion i sicrhau bod modd i blant barhau i gael gofal mewn teulu Cymraeg.
- Mae pob ymholiad a dderbyniwyd yn cofnodi dewis iaith y cwsmer.
- Anogir cydweithwyr i ddod at ei gilydd a gwella/defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd.
- Rhaglenni TG ar gael i gefnogi'r Gymraeg.
- Mae gan y Cyngor Sir wasanaeth cyfieithu rhagorol.
- Anogir cyfleoedd gweithgaredd trwy gyfrwng y dewis iaith e.e. sesiynau canu Cymraeg yn y cartrefi gofal. Mae hyn yn hanfodol bwysig i'r bobl hynny sy'n profi dementia sy'n dychwelyd at iaith eu plentyndod a'r angen i gadw eu gafael ar eu hiaith a'u traddodiadau diwylliannol cyfarwydd.
- Mae'r holl staff yn deall pa mor bwysig yw galluogi defnyddwyr gwasanaeth i ddefnyddio eu dewis iaith lle bynnag y bo modd.
- Datblygu brandiau/mentrau sydd â'r Gymraeg yn greiddiol iddynt, gydag is-benawdau pwrpasol/wedi'u teilwra yn hytrach na chyfieithiadau llythrennol.
- Cyflwyno prosiectau Cymraeg gwaith ieuenctid trwy wneud cais am grantiau ychwanegol. Cefnogir 4 sefydliad drwy brosiect grantiau bach.
- Strategaeth gadarn o ran cyfranogiad plant a phobl ifanc, codi safonau a chyfleoedd gwasanaeth Cymraeg - Mae'n rhaid i bob clwb ieuenctid, gweithgaredd cymunedol a rhaglen wyliau ddarparu'n ddwyieithog - cynhwysol a chyfranogol i bob person ifanc/teulu.
- Yr awydd i wneud cais a denu cyfleoedd i gynyddu cynlluniau peilot a phrosiectau ieuenctid - gweithgareddau amrywiol a chreadigol i hyrwyddo iaith a diddordebau plant a phobl ifanc.
- Cyllid grant sy'n parhau i gefnogi gwedd diwylliannol Ceredigion, o fewn cyfyngiadau'r gyllideb sydd ar gael a Chyllid yr Eglwys yng Nghymru.
- Pob cyfarfod ddemocrataidd y Cyngor yn cael eu cynnal yn ddwyieithog gyda darpariaeth cyfieithu ar y pryd. Ar gychwyn pob cyfarfod democrataidd y Cyngor mae'r Cadeirydd yn gwneud datganiad yn annog pobl i gyfrannu yn y Gymraeg.
- Mae Gwasanaethau Etholiadol yn gwbl ddwyieithog ar ôl gweithio gyda darparwyr y system i ddatblygu hyn, gan gynnwys sicrhau cyfeiriadau Cymraeg a Saesneg.
- Gwasanaeth cyfathrebu yn cefnogi gweithgaredd ar Ddydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Hawliau, Dydd Miwsig Cymru a Chynllun Croeso Ceredigion.
- Mae cynllun Arfor, a ariennir drwy Lywodraeth Cymru wedi galluogi ffocws penodol ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg sy'n gysylltiedig â thwf Economaidd, fel bod y ddealltwriaeth o'r berthynas rhwng datblygiad Economaidd ac iaith yn tyfu.
- Gwasanaeth Cofrestru yn cynnig gwasanaeth hollol ddwy-ieithog.
- Cordyn Gwddf "Siarad Cymraeg" a "Dwin Dysgu Cymraeg" ar gael o'r ddesg gwasanaeth TGCh ar gyfer staff newydd (pan yn casglu offer TGCh)
- Fy Nghyfri – cyfrif hunan-wasanaeth ar gael i trigolion Ceredigion fel modd i cofnodi ac adolygu ymholiadau gyda'r opsiwn i nodi dewis iaith o'r cofrestru cyntaf.
- Pob ymholiad yn cofnodi dewis iaith.

- Gwasanaeth Llyfrgell yn ddwyieithog - apps newydd **Pori** - Defnydd Cymraeg ar gael i fenthyg o'r gwasanaeth Llyfrgelloedd ynghyd ac adnoddau electronig yn y Gymraeg.
- Cyhoeddir pob adroddiad yn Gymraeg a Saesneg.
- Mae tribiwnlysoedd wedi'u trefnu yn Gymraeg.
- Gwasanaeth ysgolion yn ddwyieithog - Pob ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg i'w disgyblion, staff, rhieni / gwarcheidwaid.
- Pob ysgol wedi lleoli ei hunain ar y continiwm ieithyddol Cymraeg – hyn yn bositif.
- Gweithgareddau CSCA yn datblygu'n gadarnhaol - Gweithgareddau'r CSCA yn Cymreigio ysgolion ar draws y sir.
- Gweithgareddau'r Siarter Iaith yn codi ymwybyddiaeth y Gymraeg o fewn cymunedau ehanach yr ysgolion.
- Mae'r holl staff yn cwblhau'r e-ddysgu Cymraeg.

Yn rhan o'r ymarfer hunanasesiad Safonau'r Gymraeg, roedd cyfle i Swyddogion Arweiniol Corfforaethol yn ogystal â rhannu arfer da i nodi ambell her sydd yn eu wynebu o fewn eu gwasanaethau;

- Oherwydd pwysau o fewn y gweithlu a recriwtio mae'n heriol recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg yn enwedig y rhai sy'n weithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol cofrestredig.
- Mae gofynion mewn perthynas â dechrau lefelau ALTE yn effeithio ar recriwtio. Dylid cynnwys amser penodol ar gyfer recriwtiaid newydd yn y cyfnod sefydlu i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg.
- Ar gyfer dechreuwyr newydd, dylai'r cyfnod sefydlu hefyd gynnwys sut i gael mynediad i'r offer TG sydd ar gael i gefnogi'r Gymraeg.
- Mae angen mynediad gwell/haws i dempledi corfforaethol – angen cyfeirio cliriach ar y fewnrwyd (llofnodion e-bost, negeseuon allan o'r swyddfa ac ati.
- Rydym ni fel llawer o sectorau ar draws yr Awdurdod yn ei chael hi'n anodd iawn recriwtio, ac yn bendant yn fwy o her i ddenu gweithwyr proffesiynol Cymraeg - anodd cydbwysu anghenion a phwysau gwaith gwasanaeth gyda chadw safonau Cymraeg yn uchel.
- Yn hanesyddol mae llawer o swyddogion sy'n dysgu Cymraeg yn pryderu am gael eu barnu'n negyddol neu'n feirniadol, a gall hyn effeithio ar eu hunanhyder i barhau i ymarfer a gwella eu Cymraeg – am y rheswm yma datblygwyd #Gwena gan ddefnyddio Ysbrydoliaeth y Mis.
- Pan yn prynu wasanaethau/adnoddau newydd anodd iawn i sicrhau gwasanaeth Cymraeg bob amser. Rydym yn herio pob cwmni ac yn cynnwys ofynion Cymraeg wrth archebu, ond anodd bob tro, yn enwedig os bo na nifer bach yn cynnig y wasanaeth rydym angen.

Ymrwymiad Cyngor Sir Ceredigion i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i'r cyhoedd yn unol â gofynion Safonau Gweithredu

Yn unol â'i ymrwymiad i gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi Datganiad Polisi, sydd ar gael ar wefan gorfforaethol y Cyngor, er mwyn rhoi gwybod i'r cyhoedd bod modd defnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu gyda'r Cyngor; trwy'r post, gwasanaethau wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu ar lein.

Mae'r Datganiad Polisi hwnnw yn nodi:

“Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i gefnogi'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg, gan sicrhau bod ei wasanaethau a'i weithgareddau yn hyrwyddo ac yn hybu defnydd o'r Gymraeg ledled y Sir.” [datganiad-polisi-iaith-gymraeg-cyngor-sir-ceredigion.pdf](#) -Ddatganiad Polisi Iaith Gymraeg Cyngor Sir Ceredigion

Ceir hefyd **Siarter Cwsmer** sydd i'w weld ar y wefan gorfforaethol. Mae'r siarter hwnnw yn egluro bod y Cyngor yn darparu ystod eang o wasanaethau ac yn ceisio gwneud hynny mewn ffordd sy'n addas i anghenion y defnyddiwr ac mewn ffordd gyfleus a chwrtais. Mae'r Siarter Cwsmer yn disgrifio lefel y gwasanaeth y gall defnyddwyr ei ddisgwyl wrth gysylltu gyda'r Cyngor, ac mae hyn yn cynnwys darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg, yn unol â dewis iaith y defnyddiwr.

[Cyngor Sir Ceredigion Siarter Y - Cyngor Sir Ceredigion](#)

Safonau sy'n ymwneud ag Ateb y Ffôn a Gohebu (Safonau 1 - 22)



Mae Gwasanaeth Gofal Cwsmer Clic Ceredigion yn gweithredu fel un pwynt mynediad i wasanaethau'r Cyngor, naill ai dros y ffôn neu'n ddigidol; ac fe gaiff defnyddwyr gwasanaeth y dewis i gysylltu gyda'r Cyngor yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'r dewis iaith yn cael ei gofnodi ar y system ganolog; a phan mae angen trosglwyddo at swyddog arall, mae'r dewis iaith yn cael ei amlygu, fel bod Swyddogion yn ateb yn iaith yr ymholiad gwreiddiol. Mae nodyn atgoffa ar bob tudalen ymholiad ar y CRM yn atgoffa Swyddogion bod angen parchu dewis iaith fel a ganlyn:

“Cofiwch ateb i'r ymholiad yma yn yr iaith cofnodwyd uchod / Remember to respond to the enquiry in the language recorded above “

Mae Clic Ceredigion yn delio gyda holl ymholiadau cychwynnol ar draws ystod gwasanaethau'r Cyngor. At hyn, mae modd gwneud ymholiad neu leisio pryder drwy Wasanaeth Clic Ceredigion gan ddefnyddio ffurflen ar-lein. Mae'r ffurflen ar-lein wedi ei addasu er mwyn rhoi'r cyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth roi gwybod ym mha iaith y byddent yn dymuno derbyn eu gwasanaethau drwy'r Cyngor; gweler isod.

Opsiyonau iaith (dewisol)						
Beth yw eich prif iaith?						
Dewiswch						
Ym mha iaith y hoffech chi dderbyn y ganlynol:						
Gohebiaeth Electronig	<input type="radio"/>	Cymraeg	<input type="radio"/>	Saesneg	<input type="radio"/>	Dwyieithog
Gohebiaeth Bapur	<input type="radio"/>	Cymraeg	<input type="radio"/>	Saesneg	<input type="radio"/>	Dwyieithog
Darparu Gwasanaethau	<input type="radio"/>	Cymraeg	<input type="radio"/>	Saesneg	<input type="radio"/>	Dwyieithog
Ar Lafar	<input type="radio"/>	Cymraeg	<input type="radio"/>	Saesneg	<input type="radio"/>	Dwyieithog

Mae 21 aelod o staff yn rhan o dîm Clic Ceredigion canolfan cyswllt , a 2 oruchwylydd. Ar hyn o bryd dim ond 18 aelod o staff sydd 'in post'. Mae 100% o'r Tîm yn medru'r Gymraeg (lefel ALTE 3, 4 neu 5); gydag 1 aelod o'r Tîm yn mynychu gwersi Cymraeg yn wythnosol. Mae pob aelod o staff newydd yn derbyn gwybodaeth ynghylch Safonau'r Gymraeg fel rhan o'r broses ymsefydlu.

Mae Gwasanaeth Clic yn cofnodi nifer y galwadau i'r ganolfan gyswllt. Mae'r galwadau yn Gymraeg yn gyson ac yn dueddol o fod tua 14% o'r holl alwadau, mae hyn 2% yn llai o gymharu â'r nifer o'r galwadau a dderbyniwyd yn y flwyddyn flaenorol.

Gweler y tabl isod sy'n crynhoi'r galwadau at Wasanaeth Clic a'r Gwasanaeth Cymdeithasol, yn ystod y flwyddyn 2023-2024.

Gwasanaeth Clic a'r Gwasanaeth Cymdeithasol - 2023-2024.								
	Clic			Gwas Cymdeithasol			Cyfanswm pob mis	% galwadau Cymraeg
	Saes	Cym	Cyfanswm	Saes	Cym	Cyfanswm		
Ebr-23	7479	998	8477	841	396	1237	9714	14.3
Mai-23	5474	755	6229	642	300	942	7171	14.7
Meh-23	6074	737	6811	695	328	1023	7834	13.6
Gorff-23	5936	815	6751	736	352	1088	7839	14.9
Awst-23	5757	756	6513	833	372	1205	7718	14.6
Medi-23	5736	828	6564	805	332	1137	7701	15.0
Hyd-23	5702	823	6525	747	302	1049	7574	14.9
Tach-23	5160	735	5895	771	301	1072	6967	14.9
Rhag-23	3561	520	4081	549	291	840	4921	16.4
Ion-24	5144	690	5834	667	526	1193	7027	17.3
Chwef -24	5028	683	5711	665	367	1032	6743	15.6
Maw-24	5809	768	6577	508	297	805	7382	14.4
Cyfanswm	66860	9108		8459	4164			
Cyfanswm (laith)	75968			12623				
Cyfanswm (laith a ciwiau)	88591							

Mae'r gwasanaeth wedi dechrau casglu nifer o ymholiadau a dderbynnir drwy ffurfiau eraill hefyd, fel a ganlyn:

Nifer o Ymholiadau ar y CRM - Ebrill 23 – Mawrth 24							
laith	E-bost	Wyneb wrth wyneb	Fy Nghyfri	Cyfyngau cymdeithasol	Ffôn	Wê	Post
Cymraeg	63	833	1	1	4786	282	18
Saesneg	14497	4744	14	2	50850	12285	543
Dwyieithog	0	0	1187	0	0	0	0
Cyfanswm	14560	5577	15	3	55636	12567	561

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i godi ymwybyddiaeth am y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael ar gyfer dinasyddion Ceredigion; ac yn awyddus iawn i annog ein trigolion


i ddefnyddio'r gwasanaethau Cymraeg hynny sydd ar gael iddynt. Gweler adran 'codi ymwybyddiaeth am y gwasanaethau Cymraeg'. Fel rhan o'r broses cyflwyno'r Gwasanaeth Clic, rydym wedi addasu ein neges croeso dros y ffôn, a hynny er mwyn annog cwsmeriaid i ddewis y gwasanaeth Cymraeg.

***“Diolch am alw Cyngor Sir Ceredigion/ Thank you for calling Ceredigion County Council. Mae croeso ichi ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu gyda'r Cyngor / You are welcome to use Welsh when contacting the Council.
Am barhau yn Gymraeg gwasgwch 1: To proceed in English press 2”***

Er mwyn sicrhau gweithrediad y Safonau ar draws ystod gwasanaethau'r Cyngor, rydym yn rhoi gwybod i Swyddogion am ofynion gweithredu'r Safonau drwy nifer o ffyrdd; y broses ymsefydlu, rhaglen e-ddysgu, tudalennau 'laith ar Waith' ar y fewnwyd, diweddariadau drwy fwletin Newyddion Tîm Ceredigion; ynghyd â sicrhau bod pob un yn ymwybodol o'r canllaw: 'Canllaw Safonau'r Gymraeg: Yr hyn sydd angen imi ei wneud.

Mae ein gwasanaeth Adnoddau Dynol wedi creu fideo i hyrwyddo'r safonau, rhannwyd hwn ar CERINET

<https://ceri.ceredigion.gov.uk/portal/wp-content/uploads/2024/04/safonau-gymraeg-1080p-200917.mp4>



Safonau'n Ymwneud â chyfarfodydd (Safonau 24-38)

Yn dilyn sgîl effaith y pandemig, mae'r Cyngor wedi mynd ati i fuddsoddi mewn offer technegol ar gyfer sicrhau bod modd cynnal holl gyfarfodydd democrataidd y Cyngor yn y dull 'hybrid'; gan gadw'r egwyddorion o fod yn agored ac yn atebol i'r cyhoedd. Mae pob cyfarfod democrataidd y Cyngor yn cael eu cynnal yn ddwyieithog gyda darpariaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer rheiny nad ydynt yn medru'r Gymraeg. Er mwyn hwyluso'r dull 'hybrid' mae'r Cyngor yn defnyddio plattfform 'Zoom', ac fe ddarlledir cyfarfodydd y Cabinet, y Pwyllgor Rheoli Datblygu a'r Cyngor Llawn yn Gymraeg, neu gyda'r opsiwn i ddewis y fersiwn gyda chyfieithu ar wefan y Cyngor.

Er mwyn annog cyfranogwyr i wneud defnydd pellach o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd, lluniwyd sgript pwrpasol; ac oddi ar Mehefin 2022, ar gychwyn pob cyfarfod

democrataidd y Cyngor mae'r Cadeirydd yn gwneud datganiad yn annog pobl i gyfrannu yn y Gymraeg; fel a ganlyn:

Croeso i [teitl y cyfarfod xxxxx]. Welcome

Mae croeso i chi ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg yn y cyfarfod. Bydd y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, yn cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg. Mae modd felly, ymateb yn Gymraeg i sylwadau a chwestiynau a gaiff eu gwneud yn Saesneg, yn ogystal ag i'r rhai a wneir yn Gymraeg.

O'r 14 Cyfarfodydd democrataidd sefydlog mae:

- 11 Cyfarfod yn cael eu Cadeirio yn Gymraeg
- 2 Cyfarfod lle mae'r Cadeirydd yn croesawu'n Gymraeg, ac yna'n Cadeirio'n ddwyieithog: Mae cyfranogwyr yn cyfrannu yn Gymraeg, gan fod y gwasanaeth cyfieithu (o'r Gymraeg i'r Saesneg) ar gael
- 1 Cyfarfod sy'n cael ei Gadeirio yn Saesneg. Mae cyfranogwyr yn medru cyfrannu yn Gymraeg, gan fod y gwasanaeth cyfieithu (o'r Gymraeg i'r Saesneg) ar gael.

At hyn darperir y gwasanaeth cyfieithu mewn digwyddiadau a chyfarfodydd cyhoeddus, yn cynnwys cyfarfodydd llesiant, ac ambell gyfarfod mewnol y Cyngor (er enghraifft cyfarfodydd disgyblu, cyfarfodydd bwrdd perfformiad, mewn cyfweiliadau ac mewn sesiynau hyfforddi). Rhwng Mawrth 2023 ac Ebrill 2024 mae 267 o bwyllgorau a/neu gyfarfodydd wedi eu cefnogi gan y tîm cyfieithu, sy'n gyfatebol â 700 o oriau.

Y Gwasanaeth Cyfieithu


Y Gwasanaeth Cyfieithu – 2023-2024	
Cyfarfodydd Gwasanaethau Democrataidd y cyfieithwyd ynddynt	183
Cyfarfodydd Llesiant y cyfieithwyd ynddynt	26
Cyfarfodydd Arall y cyfieithwyd ynddynt	58
Cyfanswm y cyfarfodydd y cyfieithwyd ynddynt	267

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cyflogi 8 aelod o staff o fewn y Gwasanaeth Cyfieithu. 6 llawn amser, 1 yn gweithio 3 diwrnod yr wythnos ac 1 yn gweithio 1 diwrnod yr wythnos. O'r rhain mae 4 amser llawn hefyd yn cyfieithu ar y pryd, 1 sy'n gweithio 3 diwrnod yr wythnos yn cyfieithu ar y pryd, ac mae 1 sy'n gweithio 1 diwrnod yr wythnos yn cyfieithu ar y pryd.

Datganiadau ar ddogfennau a ffurflenni (Safonau 49, 50A)

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon
49	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddogfen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg.
50A	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.

Y templedi yn cael eu cynnwys ar ddogfennau a ffurflenni fersiwn Saesneg, er mwyn rhoi gwybod bod fersiwn Cymraeg ar gael.



Mae'r templedi wedi'u rhannu drwy Newyddion Tîm Ceredigion, a byddant ar gael ar y fewnwyd i Swyddogion gael gafael arnynt yn rhwydd. Bydd canllawiau atgoffa yn cael eu rhannu yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod Swyddogion yn cydymffurfio gyda'r gofyniad yn llawn.

Safonau ynghylch Cyflenwi Gwasanaethau – Bathodynau Cymraeg (Safon 68)

Yn dilyn mabwysiadu ffyrdd hybrid o weithio a chynnal cyfarfodydd ar lein mae'r Cyngor wedi darparu cefndiroedd at ddefnydd y staff sy'n nodi os yw aelod yn medru'r Gymraeg.



Safonau ynghylch Codi Ymwybyddiaeth am y Gwasanaethau Cymraeg Sydd ar Gael (Safon 81)

- Mae gwybodaeth am holl wasanaethau'r Cyngor ar wefan y Cyngor yn ddwyieithog.
- Ceir dogfen ar y wefan yn nodi'r Safonau y mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio hwy.
- Mae dogfen Datganiad Polisi Y Cyngor hefyd ar gael i'w lawrlwytho ar wefan y Cyngor, sy'n nodi ymrwymiad y Cyngor i gefnogi'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg, gan sicrhau bod ei wasanaethau a'i weithgareddau yn hyrwyddo ac yn hybu defnydd o'r Gymraeg ledled y Sir. [datganiad-polisi-iaith-gymraeg-cyngor-sir-ceredigion.pdf](https://www.ceredigion.gov.uk/dogfen-datganiad-polisi-iaith-gymraeg-cyngor-sir-ceredigion.pdf)

Mae'r negeseuon canlynol yn cael eu rhannu'n rheolaidd ac wedi'u pinio ar ein tudalennau:

Negeseuon rheolaidd yn atgoffa dilynwyr bod modd dilyn ni yn Gymraeg, Saesneg neu yn ddwyieithog.



- Negeseuon rheolaidd yn atgoffa bod modd cysylltu â'r Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg.






- Negeseuon ar gyfer cyfrifon Fy Nghyfrif y Cyngor sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.

Nifer o ddilynwyr ar gyfrifon Cyngor Sir Ceredigion Chwefror 2023-Mawrth 2024:

Cyfrifon	Chwefror 2023	Mawrth 2024	Cynnydd
Facebook Cymraeg	2,491	2,716	+225
Facebook Saesneg	15,765	17,066	+1,301
X Cymraeg	2,632	2,671	+39
X Saesneg	8,686	8,699	+13
Instagram (Dwyieithog)	1,420	1,647	+227

Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd helaeth o'r Cyfryngau Cymdeithasol, ac yn cynnal ymgyrchoedd rheolaidd i roi gwybod bod cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar gael.

Ymgyrchoedd hybu'r Gymraeg – 2023 - 2024		
Ymgyrch	Gwybodaeth	Cyrhaeddiad
<p>Diwrnod Shwmae, 15/10/23 (Post ar 13 Hydref 2023)</p> 	<p>Hybu digwyddiadau lleol a chynhelir gan Fenter Iaith Ceredigion (Cered). Cyhoeddi datganiad i'r wasg a oedd yn cynnwys y ffeiriau iaith, gigiau a hyd yn oed sengl oedd wedi cael ei gyhoeddi am y diwrnod gan Cered. Yna, hyrwyddo'r digwyddiadau ar ein cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys doler i'r datganiad am fwy o wybodaeth.</p>	<p>Facebook Cymraeg: 300</p> <p>Facebook Saesneg: 3,036</p> <p>X (Twitter) Cymraeg: 99</p> <p>X (Twitter) Saesneg: 346</p> <p>Instagram Dwyieithog: 244</p>
<p>Diwrnod Hawliau'r Gymraeg, 7 Rhagfyr 2023</p> 	<p>Hybu'r neges #DefnyddiaDyGymraeg o dudalennau Comisiynydd yr Iaith ar ein tudalennau Saesneg a Chymraeg i annog pawb i gymryd y cyfle i sgwrsio trwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Facebook Cymraeg: 117</p> <p>Facebook Saesneg: 665</p> <p>X (Twitter) Cymraeg: 385</p> <p>X (Twitter) Saesneg: 226</p>
<p>Santes Dwynwen, 25 Ionawr 2024</p> 	<p>Hybu a hyrwyddo diwrnod Santes Dwynwen wrth greu post ar ein cyfryngau cymdeithasol. Yn y neges oedd linc i wefan gyda mwy o wybodaeth am hanes y diwrnod, llyfrau rhamant Cymraeg, cerddoriaeth Cymraeg a ffwy.</p>	<p>Facebook Cymraeg: 884</p> <p>Facebook Saesneg: 5,073</p> <p>X (Twitter) Cymraeg: 47</p> <p>X (Twitter) Saesneg: 210</p> <p>Instagram Dwyieithog: 224</p>

<p>#DyddMiwsigCymru, 9 Chwefror 2024</p> 	<p>Creu post ar gyfer y diwrnod i annog mwy o bobl i gymryd y cyfle i wrando ar gerddoriaeth Cymraeg.</p>	<p>Facebook Cymraeg: 404 Facebook Saesneg: 1,852 X (Twitter) Cymraeg: 100 X (Twitter) Saesneg: 216 Instagram Dwyieithog: 154</p>
<p>Dydd Gŵyl Dewi, 1 Mawrth 2024</p> 	<p>Creu post oedd yn cynnig ffyrdd i ddathlu'r diwrnod, gan gynnwys llyfrau am hanes y Sant a hyd yn oed awgrymiadau am caneuon Cymraeg. Cyhoeddi datganiadau ynglŷn a'r digwyddiadau yn y Sir a'r Gystadleuaeth addurno ffenestri busnesau lleol a trefnwyd gan Cered.</p>	<p>Facebook Cymraeg: 646 Facebook Saesneg: 2,447 X (Twitter) Cymraeg: 61 X (Twitter) Saesneg: 222 Instagram Dwyieithog: 170</p>

Nifer o ddilynwyr e-newyddlen “#Gwena – Mae’n ddydd Gwener”

Cafodd e-newyddlen newydd sbon ei lawnsio ar ddydd Gwener Mawrth y 1af 2024. Enw'r cylchlythyr yw “**#Gwena – Mae’n ddydd Gwener**” - bydd ‘**#Gwena**’ i'w weld ar newyddion CERINET ar ddydd Gwener cyntaf bob mis. Prif nod ‘**#Gwena**’ fydd i hyrwyddo'r Gymraeg mewn amryw o ffyrdd gan gynnwys hysbysebu gweithgareddau e.e gigs a digwyddiadau amrywiol sydd yn hybu'r Gymraeg yng Ngheredigion, cwisiau, podlediadau, erthyglau, gwybodaeth am gerddoriaeth ac hefyd fideos fydd yn gymorth i ynganu geiriau a brawddegau Cymraeg.



<https://new.express.adobe.com/webpage/pcmiT6SACMuEI>



<https://new.express.adobe.com/webpage/CSAhk8NQXftLH>

Safonau yn ymwneud ag Hunaniaeth Gorfforaethol (Safonau 61-63; 81-83)

Hunaniaeth ddwyieithog sydd i'r Cyngor hwn – sef Cymraeg a Saesneg.



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Yn achos enw'r Cyngor, Ceredigion yw'r enw ac nid oes cyfieithiad ohono. Teitl y Cyngor yw Cyngor Sir Ceredigion County Council. Ni chaiff yr arwyddair sef "Golud Gwlad Rhyddid" ei gyfieithu. Cafodd yr arwyddair ei roi yn swyddogol ar yr 21ain o Hydref 1937 i Gyngor Sir Aberteifi, a drosglwyddwyd i Gyngor Dosbarth Ceredigion yn 1974 ac yn ddiweddarach i Gyngor Sir Ceredigion yn 1996.

O ran yr arfbais, mae'r llew aur ar gefndir du yn seiliedig ar arfais Gwaithfoed, sef Tywysog canoloesol yng Ngheredigion. Mae'r penwaig a'r gwenith yn cynrychioli'r diwydiant pysgota ac amaethyddiaeth; mae'r 'chevron' a'r rhosod yn cael eu priodoli gydag Dewi Sant, Nawddsant Cymru, sydd â chysylltiadau agos iawn â Cheredigion. Ystyr yr arwyddair yn Saesneg yw: "A nation's wealth is freedom"



At hyn, mae'r Cyngor yn gwneud defnydd cynyddol o'r brand 'Caru Ceredigion'. Mae Caru Ceredigion yn ymwneud ag ysbrydoli pawb yn y Sir i hyrwyddo'r pethau cadarnhaol o ran ymddygiad, agweddau a phroffil - mae hyn yn dda ar eu cyfer nhw, y gymuned leol a Cheredigion. [Ceredigion County Council](https://www.ceredigion.gov.uk)

Mae'r Cyngor yn ymrwymo i ddatblygu brandiau / mentrau sydd â'r Gymraeg yn ganolog iddo, gan fathu sloganau (straplines) pwrpasol, wedi'u teilwra yn hytrach na chyfieithiadau llythrennol.

Mae pob arwydd mewnol ac allanol a osodir gan y Cyngor neu ar ran y Cyngor yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.

• **Yn unol â'r Polisi Rhifo ac Enwi Strydoedd byddwn yn cyflawni'r canlynol:**

- **Enwi Tai:** Yn unol â'r Polisi Rhifo ac Enwi Strydoedd, os bydd perchennog yn gwneud cais am newid enw tŷ o'r Gymraeg i'r Saesneg, mae Swyddog Cyfeiriadau y Cyngor yn danfon llythyr sy'n eu hannog i ail ystyried, gan egluro bod enw'r tŷ yn perthyn i dreftadaeth diwylliannol ac hanesyddol yr ardal. Maent yn cael 10 diwrnod i ail ystyried eu penderfyniad. Fodd bynnag, os ydynt yn parhau gyda'u cais i newid yr enw i'r Saesneg, nid oes gan y Cyngor unrhyw rym statudol i orfodi ymhellach.
- **Enwi Ystadau neu Strydoedd Newydd:** Yn unol â'r Polisi Rhifo ac Enwi Strydoedd, bydd y Cyngor yn ymgynghori â'r Cyngorau Tref a Chymuned, er mwyn sicrhau defnyddio enwau Cymraeg ar strydoedd newydd a stadau tai newydd.

Newid Enw Eiddo

Mae'r Cyngor Sir wedi derbyn 25 o newidiadau i enwau eiddo dros y flwyddyn ddiwethaf. Dyma ddadansoddiad o'r dewisiadau iaith.

Newid Enw Eiddo – 2023-2024	
Cymraeg i Saesneg	1
Saesneg i Gymraeg	6
Cymraeg i Gymraeg	4

Mae ceisiadau eraill yn cynnwys enwau eiddo Cymraeg a Saesneg sydd wedi'u hychwanegu at eiddo sydd eisoes wedi'u rhifo a newidiadau i enwau busnes (gan gynnwys adeiladau)

Enwi Eiddo Newydd

Yn ystod y flwyddyn adrodd cafwyd 110 cais am enwi eiddo newydd. Dyma ddosraniad o'r rhifau yma.

Enwi Eiddo Newydd – 2023-2024	
Enwyd yn Gymraeg	102
Enwyd yn Saesneg	7
leithoedd eraill	1

Cydymffurfio â Safonau Llunio Polisi (Safon 88-89)

Safonau Llunio Polisi: Mae'r set o safonau hyn yn nodi ei bod yn ofynnol i'r Cyngor ystyried y Gymraeg wrth wneud unrhyw benderfyniad polisi, ynghyd â chymryd camau cadarnhaol i hyrwyddo defnydd o'r iaith.

Mae'r Safonau Llunio Polisi yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Sir Ceredigion:

- ystyried effeithiau penderfyniadau polisi'r Cyngor ar y Gymraeg; gan gymryd camau i liniaru unrhyw effaith andwyol ynghyd â manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg
- ystyried effaith defnydd o'r Gymraeg wrth ddyfarnu grantiau
- ceisio barn ar yr effeithiau ar y Gymraeg wrth ymgysylltu neu ymgynghori, a holi barn siaradwyr Cymraeg a defnyddwyr yr iaith.

Er mwyn cryfhau cydymffurfiaeth gyda'r dosbarth o Safonau yn ymwneud â llunio polisïau, mae'r Cyngor wedi cymryd y camau gweithredu canlynol yn ystod y flwyddyn:

Ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar y Gymraeg [Asesiad Effaith Integredig] Safonau 88-90

Mae fframwaith Asesu Effaith Integredig y Cyngor, yn cynnwys cwestiynau er mwyn medru ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar yr egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae'n ofynnol cyflwyno Asesiad Effaith Integredig gydag phob dogfen sy'n trafod penderfyniad polisi ar gyfer cael ei hystyried gan Gabinet y Cyngor. Mae hyn yn darparu gwarant bod ystyriaethau yn ymwneud a'r iaith Gymraeg wedi'u hystyried wrth lunio'r ddogfen; a bod mesurau lliniaru wedi eu nodi er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol ar yr iaith Gymraeg.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cafodd 35 o Asesiadau Effaith Integredig eu cyflwyno i aelodau etholedig, trwy gyfarfodydd Cabinet neu gyfarfodydd Cyngor llawn.

Mae'r fframwaith Asesu Effaith Integredig wedi'i adolygu. Mae'r teclyn newydd yn cynnwys adran sydd â chanllaw penodol. Mae hyn yn galluogi swyddogion i asesu'r effaith ar y Gymraeg. Cyflwynwyd y teclyn Asesiad Effaith Integredig diwygiedig i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ac fe'i cymeradwywyd gan y Cabinet. Rhoddwyd sesiwn hyfforddiant i Reolwyr Corfforaethol ym mis Medi 2023 ac i Aelodau Etholedig ym mis Hydref 2023. Mae swyddogion wedi bod yn ei ddefnyddio ers 1 Rhagfyr 2023.

Ystyried effeithiau dyfarnu grantiau ar y Gymraeg [Safon 71-75, 94]

Mae Polisi'r Gymraeg ar Ddyfarnu Grantiau, yn ofynnol [Safon 94] wrth ddyfarnu grantiau. Nod y polisi yw cynorthwyo swyddogion ynghylch sut i ystyried defnydd o'r Gymraeg wrth ddyfarnu'r grant hwnnw. At hyn, sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn ymwybodol o'u dyletswyddau wrth ddod i benderfyniadau ynghylch gosod grantiau.

Oddi ar cymeradwyo'r Polisi ym mis Ionawr 2023, rydym wedi bod yn cadw cofnod o'r broses dyfarnu grantiau; rydym yn gobeithio medru cofnodi'r defnydd a wneir o'r Gymraeg o ganlyniad derbyn y grant.

Mae dyfarnu grantiau â'r potensial i gael effeithiau pellgyrhaeddol ar y Gymraeg, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol; mae gan nifer o'r grantiau hyn draweffaith cymdeithasol ac economaidd sydd yn ei dro'n dylanwadu ar y Gymraeg. Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud hi'n ofynnol ystyried pa effaith fyddai dyfarnu'r grant yn ei gael ar y:

- cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yng nghyd-destun y gweithgaredd
- peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y gweithgaredd

O ran y Grant Cymunedol, nid yw'r panel yn cymeradwyo grant i unrhyw fudiad os nad ydynt yn gweithredu yn ddwyieithog neu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Cabinet wedi cymeradwyo canllawiau newydd ar gyfer y Cynllun Grant Cymunedol yn ddiweddar ac yn rhan o'r canllawiau mae yna adran am defnydd yr iaith Gymraeg.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Safonau'r Iaith Gymraeg i sicrhau bod yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal, a dylai dinasyddion fedru defnyddio'r iaith Gymraeg ymhob agwedd o'u bywydau os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

- Er mwyn cefnogi'r nod hwn, **dylai** ymgeiswyr grant llwyddiannus :-
 - Gynhyrchu unrhyw ddeunydd ysgrifenedig neu electronig sy'n gysylltiedig â'r sefydliad yn ddwyieithog – e.e. arwyddion, pamffledi, poster, cyhoeddiadau, hysbysebion, tudalennau gwe, cyfryngau cymdeithasol ac unrhyw arwyddair.
 - Sicrhau nad oes unrhyw ddigwyddiad neu weithgaredd cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r sefydliad yn trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg e.e. cyhoeddiadau uwch seinyddion, y Cadeirydd i sicrhau bod y rheiny sy'n mynychu yn teimlo'n gyfforddus i allu cyfrannu yn yr iaith sydd fwyaf ffafriol iddynt.
 - Cynorthwyo i ddarparu cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r iaith Gymraeg.

Yn ychwanegol i'r uchod mae'n rhaid i geisiadau grant ddangos bod unrhyw brosiect arfaethedig yn bodloni o leiaf un o'r amcanion a amlinellir yn y Strategaeth Gorfforaethol ddiweddaraf.

Enw'r Gwasanaeth	Cyfanswm nifer y grantiau a ddosbarthwyd oddi rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024	Nifer o ymgeiswyr sydd wedi cyflwyno eu ceisiadau yn Gymraeg
Economi ac Adfywio – Arfor	19	10
Economi ac Adfywio – Cynnal y Cardi	51	4

Economi ac Adfywio – Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU	12	1
Economi ac Adfywio – Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU	16	1
Cynllun Grant Cymunedol Ceredigion Cyllid a Chaffael	*28	30 • 5 grant cyfalaf • 25 grant polisi
Y Gwasanaeth Ieuentid Cytundebau Lefel Gwasanaethau	6	2
Y Gwasanaeth Ieuentid Grant Cymorth Ieuentid	**1	9
Y Gwasanaeth Gofal	91	21

*Allan o 30 cais cafodd eu dderbyn, 28 cais gafodd eu ariannu. Cafwyd cyfanswm o 60 cais i'r Cynllun dros y flwyddyn. Mae rhaid i bob mudiad sydd yn cael ei ariannu trwy'r Cynllun grant weithredu yn ddwyieithog – felly cyn ei bod yn cael cynnig y grant yn llawn mae rhaid iddynt wneud yn siŵr bod popeth ar gael yn ddwyieithog.

** Dosbarthwyd 1 grant i 6 mudiad llwyddiannus.

Cynllun Grantiau Bach Gwaith Ieuentid Cymraeg

Ym mis Medi 2021 nododd adroddiad terfynol y Bwrdd Ieuentid Dros Dro 14 argymhelliad i wella'r cynnig Gwaith Ieuentid yng Nghymru.

Ymatebodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg i'r adroddiad hwnnw drwy Ddatganiad Ysgrifenedig ym mis Rhagfyr 2021. Cefnogwyd yr ymrwymiad a wnaed yn y Datganiad Ysgrifenedig gan £11.4 miliwn o gyllid ychwanegol dros y tair blynedd nesaf er mwyn cynorthwyo i roi'r argymhellion ar waith.

Yn y Datganiad Ysgrifenedig cyhoeddodd y Gweinidog bod Bwrdd Gweithredu Strategaeth Gwaith Ieuentid yn cael ei greu.

Fel rhan o'r gwaith, mae Awdurdodau Lleol yng Nghymru wedi cael cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Cymorth Ieuentid er mwyn cryfhau ein gwaith o gefnogi Argymhelliad 12: Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu nifer y gwasanaethau gwaith ieuentid sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Dyma ddau enghraifft o wariant y grant o fewn Sir Ceredigion;

Cynllun Grantiau Bach Gwaith Ieuentid Cymraeg Cyngor Sir Ceredigion 2023-24	
Prif Ganlyniadau	
Arfer Da : 1	
CFfl Tregaron (Cyfansoddi gyda Bardd Lleol)	<ul style="list-style-type: none"> • 22 person ifanc wedi elwa o'r prosiect. <p>Arweinydd prosiect: <i>"Yn ôl un aelod, "mae'n neis 'neud rhywbeth mas o</i></p>

Ysgol, fi'n licio 'neud pethe fel hyn'. Aelodau wedi mwynhau'r rhyddid o weithio gyda'r bardd y tu allan i furiau'r Ysgol, mewn awyrgylch mwy ymlaciedig. Mae'r aelodau wedi gweld gwerth yn yr iaith mewn modd gwahanol, mwy creadigol a gweld bod modd defnyddio'u hiaith lafar i greu darn safonol o farddoniaeth."



Arfer Da : 2

Plethu

- 50 person ifanc 11-25 oed wedi cael budd mewn 20 sesiwn.

Arweinydd prosiect: *"Roedd y Gwaith color, creu set, gwisgoedd a datblygu sgiliau arwain, sgiliau technegol a sgiliau perfformio i gyd o gwmpas themâu o hanes Cymru a thrwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd nifer o'r bobol ifanc ddim yn defnyddio'r Gymraeg o gwbl y tu allan i'r ysgol cyn cymryd rhan yng ngweithgareddau Plethu. Mi wnaeth dysgu am gyd-destun hanes yr ardal a chwrrdd ag artistiaid cyfrwng Cymraeg helpu rhai i gael teimladau mwy positif at yr iaith."*



Ystyried effeithiau ar y defnydd o'r Gymraeg yn rhan o Ymgynghoriad Cyhoeddus: Safonau 91-93

Yn rhan o'r Fframwaith Ymgynghori y Cyngor, rydym wedi datblygu set o gwestiynau y gall Swyddogion eu defnyddio wrth ymgymryd ag unrhyw ymgynghoriad, hyn er mwyn ystyried beth yw barn y cyhoedd ar effaith arfaethedig y penderfyniad ar y Gymraeg.

Yn ystod 2023-24 roedd 11 ymgynghoriad cyhoeddus wedi'u cynnal. Roedd 3 yn cynnwys cwestiwn penodol i asesu effaith ar y Gymraeg. O'r 11 eraill, roedd 4 yn gofyn am syniadau ac adborth cyffredinol, er enghraifft, gofyn am awgrymiadau am beth i wneud efo hen adeilad, 'cyn-Llyfrgell ac Ystafell Ddarllen Ceinewydd'.

Dyma enghraifft o ddau ymgynghoriad a wnaed yn ystod y flwyddyn adrodd;

Ymgynghoriad ynghylch ymddiriedolaeth elusenol 'Llyfrgell ac Ystafell Ddarllen Ceinewydd'

Cyfnod: 27/02/23 – 07/05/23

Nid oedd cwestiwn ar gyfer effaith ar y iaith Cymraeg. Gofyn am awgrymiadau am beth i wneud efo'r adeilad roedd hwn, nid ymgynghoriad ar cynnig penodol.

Dolen i'r wybodaeth: [Ceredigion County Council](#)

Strategaeth Tai Lleol Ceredigion

Cyfnod: 05/05/23 – 30/06/23

Roedd cwestiwn ar gyfer effaith ar y iaith Cymraeg. Gallwch weld yr ymatebion yn y ddogfen a aeth i Gabinet.

Dolen i'r wybodaeth: [Ceredigion County Council](#)

Cydymffurfiaeth â Safonau Gweithredu (99-144)

Mae'r set o **Safonau Gweithredu (98-144)**, yn ymdrin â'r ffordd y mae'r Cyngor yn defnyddio'r Gymraeg yn fewnol, ac yn darparu hawliau i weithwyr yng nghyd-destun derbyn eu gwasanaeth adnoddau dynol yn eu dewis iaith. Mae'r set o Safonau yn gofyn i'r Cyngor edrych ar ddulliau i gynyddu a hwyluso defnydd y Gymraeg yn fewnol, er mwyn cyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru i weld mwy o bobl yn siarad ac yn defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd.

Mae set o Safonau Gweithredu yn gofyn i'r Cyngor adrodd ar y data canlynol:

Rhif Safon	Safonau Gweithredu	Data
151	Sgiliau iaith Staff	Nifer y staff sydd a sgiliau yn y Gymraeg, fesul lefel ALTE, yn ystod y flwyddyn dan sylw
154	Recriwtio i Swyddi Gwag	Nifer y swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn sy'n gofyn am sgiliau iaith Gymraeg, ac a gategoreiddiwyd gydag lefelau ALTE
130	Hyfforddiant Dysgu neu Wella Sgiliau iaith:	Nifer yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi naill ai i ddysgu neu wella eu sgiliau iaith Gymraeg
152	Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Gymraeg	Nifer y staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant a gynigiwyd gan y Cyngor yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn.
128, 129, 152 170	Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd:	Nifer y cwynion a dderbyniwyd sy'n Gysylltiedig

Gwefan Swyddi (Safonau 137 – 139)

Mae ein gwefan swyddi yn gwneud yn siŵr bod ymgeiswyr yn deall bod croeso iddynt gyflwyno eu ceisiadau am swyddi yn yr iaith Gymraeg.

Mae'r frawddeg isod wedi cael ei gosod ar dudalen recriwtio y Cyngor:

Rydym yn gweithredu polisi dwyieithog. Gwahoddir ymgeiswyr i wneud cais yn Gymraeg, ni fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg.

We operate a bilingual policy. All applicants are invited to apply in Welsh, any application submitted in Welsh will not be treated less favourably than an application made in English.

Sgiliau iaith Staff (Safon 127, 151)

Mae'r Cyngor yn mesur sgiliau iaith staff gan ddefnyddio fframwaith ALTE (The Association of Language Testers in Europe). Mae'r fframwaith hwn yn gosod lefel sgiliau iaith rhwng 0-5, ac yn gosod 'datganiadau medru pwrpasol'. Bydd pob aelod o staff yn hunan-asesu ei sgiliau iaith gyferbyn a'r datganiadau medru hyn, ac yn eu cofnodi ar system Ceri Adnoddau Dynol; hyn fel bod modd adrodd ar ddata yn flynyddol, yn unol â gofynion Safon 127 a 151.

- Gweler **Atodiad 1** ar gyfer y data sgiliau iaith staff wedi ei gyflwyno fesul gwasanaeth.

Mae'r data isod yn gosod y gymhariaeth yn nifer y staff sydd â sgiliau gwrando a siarad yn y Gymraeg, rhwng adroddiad llynedd a'r sefyllfa eleni:

Gwrando /Siarad				
Lefel	Nifer y Staff	%	Nifer y Staff	%
	2022 - 2023	2022 - 2023	2023 - 2024	2023 - 2024
Dim Cofnod e.e TUPE			90	4.29%
Lefel 5	655	32%	635	30.13%
Lefel 4	325	16%	311	14.81%
Lefel 3	282	14%	286	13.62%
Lefel 2	297	15%	299	14.24%
Lefel 1	397	20%	418	19.90%
Dim Sgiliau	73	3%	62	2.05%
Cyfanswm	2029	100%		

Gwrando / Siarad 2023-2024		
Lefel	Nifer y Staff	%
Dim sgiliau	62	2.95%
Lefel 1	418	19.90%
Lefel 2	299	14.24%
Lefel 3	286	13.62%
Lefel 4	311	14.81%
Lefel 5	635	30.13%
Dim cofnod (ee TUPE)	90	4.29%
CYFANSWM	2101	100.00%

Ysgrifennu 2023 - 2024		
Lefel	Nifer y Staff	%
Dim sgiliau	140	6.66%
Lefel 1	493	23.47%
Lefel 2	334	15.90%
Lefel 3	260	12.38%
Lefel 4	295	14.04%
Lefel 5	491	23.37%
Dim cofnod (ee TUPE)	88	4.19%
CYFANSWM	2101	100.00%

Darllen 2023 - 2024		
Lefel	Nifer y Staff	%
Dim sgiliau	125	5.95%
Lefel 1	451	21.47%
Lefel 2	321	15.28%
Lefel 3	262	12.47%
Lefel 4	297	14.14%
Lefel 5	559	26.61%
Dim cofnod (ee TUPE)	86	4.10%
CYFANSWM	2101	100.00%

Y Prif Benawdau

- Mae 59% o staff gyda'r gallu i sgwrsio ar lafar yn Gymraeg (sef ALTE Lefel 3,4 a 5), mae hyn yn gyson a phroffiliau blaenorol o sgiliau'r gweithle.
- At hyn, mae 34% o staff gyda lefel cwrtseisi iaith sylfaenol yn y Gymraeg (Lefelau ALTE 1 a 2)
- Dim ond 3% o'r gweithlu sydd wedi nodi nad oes ganddynt sgiliau Cymraeg o gwbl sy'n calonogol iawn. Er mwyn ceisio lleihau'r nifer o weithwyr sydd yn nodi nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg, bydd y Cyngor yn annog Swyddogion i

gwblhau'r pecyn e-ddysgu 10 awr 'Croeso Cymraeg' sydd wedi ei ddatblygu gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol.

Mae'r niferoedd sydd â sgiliau yn y Gymraeg o fewn y sector gofal yn parhau i fod yn destun pryder, mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r prinder sgiliau Cymraeg ar draws y sector yn genedlaethol. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r Cyngor yn ceisio datblygu ei weithlu cyfredol, ac yn sefydlu arfer da wrth drefnu rhaglen hyfforddiant ar y cyd gyda'r Brifysgol Agored.

Recriwtio i Swyddi Gwag

Nifer y swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn sy'n gofyn am sgiliau iaith Gymraeg, ac a gategoreiddiwyd gyda lefelau ALTE – 2023 - 2024		
	Nifer	Canran
Cyfanswm nifer o swyddi a hysbysebwyd	551	
Nifer y swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 5	92	17%
Nifer y swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 4	127	23%
Nifer y swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 3	196	36%
Nifer y swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 2	32	6%
Nifer y swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 1	104	19%

Mae'r Cyngor yn parhau i hysbysebu am sgiliau iaith Gymraeg rhugl, ALTE 5 mewn nifer o swyddi (17%); caiff y nifer uchaf o swyddi eu hysbysebu drwy ofyn am lefel iaith ALTE 3 (36%) Mae ALTE lefel 3 yn gofyn bod person yn medru deall a chymryd rhan mewn sgysiau arferol o ddydd i ddydd yn y swyddfa, lle mae lefel 5 yn golygu rhuglder llwyr yn y Gymraeg. Mae'r Cyngor yn sicrhau bod personau yn cael dewis iaith wrth gynnal eu cyfweiliad i swydd, yn unol â Safon 137.

Ymgeisydd: Dewis iaith Mewn Cyfweiliad - 2022 - 2023		
	Nifer	Canran
Saesneg	3030	86.45%
Cymraeg	441	12.58%
Heb nodi dewis iaith	34	0.97%

Mae'r nifer sy'n dewis cynnal eu cyfweiliad yn y Gymraeg yn parhau i fod yn isel o gymharu gyda'r nifer sy'n dewis cynnal eu cyfweiliad yn Saesneg. Er mwyn tynnu sylw bod modd cyflwyno ffurflenni cais a chynnal cyfweiliad yn newis iaith yr ymgeisydd. Gwelir mae'r frawddeg isod wedi cael ei gosod ar dudalen recriwtio y Cyngor:

Rydym yn gweithredu polisi dwyieithog. Gwahoddir ymgeiswyr i wneud cais yn Gymraeg, ni fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg.

We operate a bilingual policy. All applicants are invited to apply in Welsh, any application submitted in Welsh will not be treated less favourably than an application made in English.

[Hafan | Ceredigion County Council Careers](#)

Newyddion HR News

Mae'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol yn rhannu newyddlen bod wythnos, ac fe gaiff staff ddewis iaith i dderbyn y newyddlen. Mae'r niferoedd sy'n dewis derbyn Newyddion HR News yn y Gymraeg yn unig yn isel, fodd bynnag, mae'r nifer sy'n derbyn Newyddion HR News yn ddwyieithog yn 7.9%.

Nifer sy'n derbyn Newyddion HR News - 2022 - 2023		
	Nifer	Canran
Anhysbys	2602	72.3%
Saesneg	626	17.4%
Cymraeg	86	2.4%
Dwyieithog	285	7.9%

Hyfforddiant Dysgu Cymraeg

Mae'r bartneriaeth rhwng y Cyngor Sir a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yn parhau, er mwyn medru ariannu Tiwtor Cymraeg Gwaith. Rydym wedi profi bod cyflogi Tiwtor Cymraeg Gwaith yn y gweithle yn gwneud gwahaniaeth mawr yn y niferoedd sy'n derbyn cyfle i ddysgu Cymraeg o fewn y Cyngor.

Nifer yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi naill ai i ddysgu neu wella eu sgiliau iaith Gymraeg 2023-2024:	
Cwrs	Nifer yn mynychu
Cwrs Mynediad	30
Cwrs Sylfaen	29
Cwrs Canolradd	12
Cwrs Uwchradd	10
Cyfanswm Dysgwyr	81

Arholiadau CBAC	Nifer
Cwrs Mynediad	3 wedi dewis sefyll arholiad ym mis Gorffennaf 2024.
Cwrs Sylfaen	11 yn sefyll a phasio arholiad Mynediad yn Ionawr 2024.
Cwrs Canolradd	8 yn sefyll arholiad Mynediad / Sylfaen / Canolradd yn Gorffennaf 2024

Cyrsiau i wella sgiliau iaith – 2023 - 2024		
Rhif Safon	Enw'r Cwrs	Niferoedd
129	Gwella eich sgiliau Ysgrifennu yn Gymraeg	12
129	Cwrs Codi Hyder Defnyddio'r Gymraeg: Cwrs Preswyl Nant Gwrtheyrn	6

Dysgu Cymraeg ac Adborth y Dysgwyr

Niferoedd Swyddogion y Cyngor sydd wedi derbyn y cyfle i fynychu Cysiau Wythnosol i Ddysgu Cymraeg: 2023/24			
Teitl y Cwrs	Nifer mynychu	Nifer yn sefyll arholiad 2023/24:	Adborth gan Ddysgwyr
Cwrs Mynediad	30	Targedir arholiadau Ionawr 2025 ar gyfer y myfyrwyr hyn. 3 wedi dewis sefyll arholiad ym mis Gorffennaf 2024.	<p>“I have gained a considerable amount personally since I started learning Welsh. I feel a greater sense of belonging at work and have met some fantastic people on the course”</p> <p>“I really enjoy the beginners course & the way it’s structured. The weekly tutor-led sessions provide a great opportunity to learn, practice, ask questions, connect with fellow learners & have a laugh. The on-line support units are very well put together & allow me learn in my own time.”</p> <p>“I have loved learning Welsh and I hope that there will continue to be opportunities to learn through the council so that I can continue to work towards becoming a fluent speaker.”</p>
Cwrs Sylfaen	29	11 yn sefyll a phasio arholiad Mynediad yn Ionawr 2024.	<p>In the office where I work almost everyone is fluent Welsh. Simply coming in and being able to swap pleasantries in Welsh in all those work places is great. Thanks to the courses I'm now I'm able to confidently speak Welsh on that Mynediad-Sylfaen level.</p> <p>The majority of the children and young people I work with attend Welsh medium Early Years settings and schools and can converse in both languages. Now that I am learning in Welsh, I can support younger children with their phonics, reading and maths and do informal assessments of their language development in Welsh (as well as English).</p>

			<p>I found the exam preparation sessions extremely helpful. They, along with the mock spoken exams arranged by Huw, helped me remember a lot of material through regular practice & repetition. All very relevant & well organised.</p>
Cwrs Canolradd	12	8 yn sefyll arholiad Mynediad / Sylfaen / Canolradd yn Gorffennaf 2024	<p>I am enjoying the Canolradd course. I attend to attain certain levels of ability (ALTE levels) prescribed within my job description. I am proud to be making progress, and have had success in the last examination at Mynediad level. I am now enrolled for the Sylfaen exam in June.</p> <p>Last year I sat and passed Mynediad and this year I'm sitting Sylfaen. I cannot express how excited I was when I passed my Mynediad. There's no way I could have done it without the support of Gwaith Cymraeg.."</p> <p>"I couldn't ask for a better tutor, Huw is obviously very passionate about the Welsh Language and is the most patient and encouraging tutor. Should you make a mistake , he has a wonderful way of putting you on the right track where you forget you actually made a mistake in the first place."</p>
Cyrsiau Uwch	10		<p>Ar ôl dysgu Cymraeg bob nawr ac yn y man dros 20 mlynedd, roedd cael manteisio ar y cyfle Cymraeg Gwaith gyda Huw pan ddes i nol i weithio gyda Cheredigion yn wych. Dwi wedi magu hyder ac wedi datblygu fy sgiliau tu hwnt i unrhyw lefelau blaenorol</p> <p>Mae'r dosbarth wythnosol yn ffitio'n wych gyda gweithio hybrid. Maen nhw a'r adnoddau atodol wedi bod yn atodiad positif iawn i fy nyddiau gwaith.</p>

			Dw i'n ei hystyried yn frainit fawr i fod wedi cael y cyfle i astudio'r Gymraeg yn ystod oriau gwaith. Dw i'n teimlo'n ffodus iawn fy mod i wedi cymryd rhan yn y rhaglen ac wedi elwa'n fawr ohoni. Dw i'n annog yn gryf unrhyw un o weithwyr y Cyngor sydd eisiau dysgu Cymraeg i fanteisio ar y rhaglen Cymraeg Gwaith!
Cyfanswm Dysgwyr	81	22	

Adnoddau Allgyrsiol – 2023 - 2024	
Dysgu Anffurfiol	<p><u>Clwb Adolygu</u> Yn dilyn annog cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg ar ddechrau tymor yr Hydref, ffurfiwyd y Clwb fel anodd adolygu ar gyfer yr arholiadau yn wythnosau olaf Rhagfyr a thrwy gydol mis Ionawr. Mynychwyd y sesiynau hyn gan yr 11 oedd yn sefyll yr arholiad ynghyd a nifer o fyfyrwyr eraill oedd eisiau cadarnhau eu Cymraeg. Yn ystod mis Ionawr daeth y Clwb yn ddigwyddiad dyddiol, gyda sesiynau ar y cyd a sesiynau un-i-un yng nghwmni'r Swyddog Hyfforddi ar gael i'r myfyrwyr. Bydd y Clwb Adolygu'n rhedeg eto i baratoi ar gyfer arholiadau'r Haf.</p> <p>Calendr Digwyddiadau Dysgu Anffurfiol</p> <p><u>Shwmae Sumae</u> Ym mis Hydref cyfrannodd y Swyddog Hyfforddi at ddatganiad gwasg Shwmae Sumae Cyngor Ceredigion.</p> <p><u>Cyfweliad Radio</u> Ym mis Tachwedd 2023 ymddangosodd y Swyddog Cymraeg Gwaith ac un o fyfyrwyr y rhaglen Cymraeg Gwaith ar y rhaglen radio leol, Cymru United. Trafodwyd ganddynt y cynllun Cymraeg Gwaith, cyfleoedd dysgu anffurfiol y cynllun gan gynnwys y rhaglen Ffrind Iaith, a'r cyfleoedd a ddarperir gan y cynllun i ennill cymwysterau fel arholiadau CBAC.</p> <p><u>Ymweliad Amgueddfa</u> Ym mis Rhagfyr 2023 aed a dros 20 o fyfyrwyr y cwrs, gyda chynrychiolwyr o bob dosbarth, ar daith dywys o gwmpas Amgueddfa Ceredigion. Cywaith oedd y daith rhwng y Swyddog Hyfforddi a'r Amgueddfa. Roedd yn fodd i'r amgueddfa i lansio'i theithiau newydd i ddysgwyr, ac yn fodd i'r myfyrwyr gael symud eu hastudiaethau o'r ystafell ddosbarth ac i mewn i'r byd ehangach. Cafwyd ymateb ffafriol iawn i'r daith. Fel nodwyd gan rai o'r mynychwyr, "Diolch yn fawr iawn am y trip i'r amgueddfa. What a great idea & an arbennig way to dysgu Cymraeg!" ac "Thank you for the opportunity to attend this. It was brilliant Huw."</p> <p>Datganiad Gwasg</p>

	<p>Yn dilyn y digwyddiad cydweithiodd y Swyddog Hyfforddi a Swyddogion yr Amgueddfa ym mis Ionawr 2024 i lunio datganiad gwasg yn olrhain yr hanes ac yn hyrwyddo teithiau'r Amgueddfa i ddysgwyr. Rhannwyd y datganiad ar CERL ac ar y cyfryngau cymdeithasol.</p> <p>https://www.ceredigion.gov.uk/preswylwr/newyddion/2024/teithiau-i-ddysgwyr-yn-amgueddfa-ceredigion/</p> <p><u>Gwena: Mae'r Ddydd Gwener</u></p> <p>Ym misoedd Chwefror a Mawrth cydweithiodd y Swyddog Hyfforddi â Swyddog Polisi Cymraeg y Cyngor ac Arweinydd Tim CERED i gynllunio a darparu e-gylchlythyr newydd, Gwena, ar gyfer staff Cyngor Sir Ceredigion. Recordiodd y Swyddog Hyfforddi fideos byr ar y Gymraeg ar gyfer pob rhifyn o'r e-gylchlythyr, a hyrwyddodd y fenter newydd ymysg dysgwyr y Cyngor. Parheir yn ystod y misoedd nesaf i weithio ar y cyd ar y cylchlythyr er mwyn sicrhau ei berthnasedd a'i ddefnyddioldeb i siaradwyr Cymraeg y Cyngor.</p>
Ffrind Iaith	<p>Adeiladwyd y rhaglen o gwmpas yr arholiadau. Rhoddwyd y cyfle i'r 11 myfyriwr oedd yn sefyll yr arholiadau i baru a mentoriaid rhugl o blith staff y Cyngor.</p> <p>Darparodd y Swyddog Hyfforddi daflenni gweithgaredd ar gyfer y parau drwy gydol Ionawr, yn canolbwyntio ar wahanol agweddau ar yr arholiad oedd i ddod.</p> <p>Bu'r rhaglen yn llwyddiant, fel y gwelir yn adborth y myfyrwyr: "The Ffrind Iaith meetings gave me the peace of mind & confidence I needed at the exam."</p> <p>Eir ati yn nhymor yr haf i drefnu rhaglen Ffrind Iaith gyffelyb i'r myfyrwyr sydd wedi ymrwmo i sefyll arholiadau mis Gorffennaf.</p>

Sylwadau Atodol, gan edrych i'r dyfodol. 2023 – 2024

1) Cymraeg i Ddechreuwr y Ddarparwyr Gofal Cymdeithasol

Ym mis Chwefror 2024 adnabuwyd yr angen am gwrs cyflwyniadol i ddechreuwr ym maes darparwyr Gofal Cymdeithasol ar draws y sector yng ngorllewin Cymru. Ar gais yr adran Dysgu a Datblygu, lluniodd y Swyddog Hyfforddi gwrs byr i ateb y galw. Darperir y cwrs am y tro cyntaf ym misoedd Mehefin a Gorffennaf 2024. Darperir y cwrs eto ym mis Medi 2024.

2) Cydweithrediad mewnol – Amgueddfa Ceredigion

Gwelwyd llwyddiant mawr i'r cydweithrediad mewnol a fu rhwng Amgueddfa Ceredigion a'r rhaglen Cymraeg Gwaith. Gobeithir trefnu taith debyg yn y dyfodol, ynghyd ag edrych am fwy o gyfleoedd i gydweithio'n fewnol ag adrannau eraill o'r Cyngor er mwyn darparu cyfleoedd dysgu i'r dysgwyr.

Darpariaeth Hyfforddiant Corfforaethol Cyfrwng Cymraeg:

Mae cyfleoedd hyfforddi yn cael eu hyrwyddo a'u darparu i staff yn yr erthygl Newyddion Adnoddau Dynol wythnosol a gyhoeddir i'r holl staff yn Gymraeg a

Saesneg. Mae'r Tîm Dysgu a Datblygu hefyd yn dosbarthu Cylchlythyr chwarterol i staff gofal cymdeithasol mewnol ac allanol sy'n ddwyieithog.

Mae digwyddiadau hyfforddi sydd ar y gweill hefyd yn cael eu hyrwyddo drwy Cerinet, system fewnrwyd y Cyngor. Caiff staff ddewis mynd i mewn i'r safle yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Gall staff chwilio am gyrsiau ar Cerinet, trwy deipio 'Cymraeg', bydd y cyrsiau sydd ar gael yn Gymraeg yn cael eu dangos, ac mae hyn yn cynnwys yr ystod o wersi Cymraeg Gwaith. Maent yn gallu gweld ac archebu presenoldeb ar gyrsiau hyfforddi neu gofrestru eu diddordeb drwy roi eu henw ar restr aros. Dangosir teitlau cyrsiau yn Gymraeg a Saesneg, ac amlygir y rhai sy'n cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg gydag 'c'.

Mae'r awdurdod wedi buddsoddi mewn System Rheoli Dysgu newydd sef Pwll Dysgu Ceredigion, sy'n cynnal yr holl raglenni e-ddysgu a gynigir. Yn wahanol i'r safle blaenorol mae hwn bellach yn rhoi dewis i staff gael mynediad i'r safle yn Gymraeg neu Saesneg, at hyn mae staff yn medru cwblhau'r rhaglenni e-ddysgu yn eu dewis iaith. Mae gan staff hefyd y dewis i 'toglo' rhwng ieithoedd wrth gwblhau modiwlau e-ddysgu.

Cyfanswm nifer y sesiynau hyfforddi a gynigwyd gan y Cyngor i Staff – 2023 - 2024		
Rhif Safon	Gofyniad	Niferoedd a %
152	Cyfanswm nifer y sesiynau hyfforddi a gynigwyd gan y Cyngor i staff	794 o sesiynau (heb gynnwys digwyddiadau ysgol neu e-ddysgu) 5,060 o staff wedi mynychu
152	Cyfanswm a % y sesiynau hyfforddi a gynigwyd yn Gymraeg i staff	30 cynnig (3%) 11 sesiwn wedi'u canslo: (10 oherwydd dim digon o niferoedd)
152	Cyfanswm a % y sesiynau hyfforddi a gynigwyd yn Gymraeg neu'n ddwyieithog i staff	32 cynnig (4%) 12 sesiwn wedi'u canslo: (11 ohonynt oherwydd dim digon o niferoedd)
152	Cyfanswm nifer a % y staff a fynychodd gyrsiau a ddarparwyd gan y Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y flwyddyn	186 (4%) o staff wedi mynychu

Nifer y sesiynau hyfforddi a gynigwyd yn Gymraeg yn unol â Safon 128/129/133 2023-2024				
Rhif Safon	Enw'r cwrs	Nifer ddaeth i'r fersiwn Gymraeg	Nifer ddaeth i'r fersiwn Saesneg	% a fynychodd y fersiwn Cymraeg
128	Recriwtio a chyfweld sgiliau	Wedi'i gynnwys yn Rhaglen newydd Rheolwr Ceredigion (gweler isod)		

128	Rheoli Perfformiad	Wedi'i gynnwys yn Rhaglen newydd Rheolwr Ceredigion (gweler isod)		
128	Cwynion a gweithdrefn Ddisgyblu	Heb ei gyflwyno	67	0
128,133	Sefydlu sesiynau – sy'n cynnwys gwybodaeth am y safonau iaith Gymraeg	5	162	3%
128	Delio â'r cyhoedd (h.y. Gofal Cwsmer: Cwsmer yn gyntaf	Heb ei gyflwyno	18	0
128	Iechyd a Diogelwch	Cyflwynwyd 1 sesiwn i 1 wedi mynychu. Cafodd 5 sesiwn eu canslo oherwydd dim digon o niferoedd	187 o sesiynau wedi'u cyflwyno. 1056 wedi mynychu.	0.09%
129	Ymwybyddiaeth Hanes yr Iaith a'r Safonau Iaith: rhaglen e-ddysgu	55	650	8%

Rhaglen Hyfforddi Rheolwyr Ceredigion – 2023 - 2024				
Rhif Safon	Enw'r cwrs	Nifer ddaeth i'r fersiwn Gymraeg	Nifer ddaeth i'r fersiwn Saesneg	% a fynychodd y fersiwn Cymraeg
128	Rhaglen Hyfforddi Rheolwyr Ceredigion	8	19	30%
128	Diweddariad blynyddol rheolwr Ceredigion	13	145	8%
128	Cadeirion cyfarfodydd rhithiol rheolwyr	Heb ei gyflwyno	6	0%

Cydymffurfiaeth a'r Safonau Hybu (Safonau 145-146)

Mae'r Safonau Hybu yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor lunio Strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut bydd y Cyngor yn mynd ati i greu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ehangach o fewn y Sir; annog mwy o ddefnydd o'r iaith ac, yn y pen draw, gweld mwy o siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion ar ddiwedd y cyfnod 5 mlynedd. Ar ddiwedd y cyfnod 5 mlynedd, mae'n ofynnol cyhoeddi adroddiad sy'n asesu i ba raddau wnaeth y Cyngor ddilyn y strategaeth honno.

Adroddiad Cyflawniad Strategaeth Iaith 2018-23

Mae cyfnod 5 mlynedd y Strategaeth Iaith gyfredol wedi dod i ben ac yn unol â gofyniad Safon 146 cyhoeddwyd adroddiad cyflawniad. Cafwyd adroddiad sy'n asesu cyflawniad Strategaeth 2018 - 2023 ei gyflwyno i Bwyllgor Iaith a Cabinet y Cyngor ar y 6ed o Fehefin 2023, ac yna yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Mae'r adroddiad mewn dau rhan:

- Adroddiad Adolygu Strategaeth Iaith: sy'n adrodd ar ein dulliau o weithredu, ynghyd â'r dulliau o fesur canlyniadau.
- Adroddiad ar Gyflawniad Strategaeth Iaith: sy'n adrodd ar yr holl weithgareddau a drefnwyd er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.

Er mwyn datblygu'r adroddiad cymerwyd y camau canlynol:

Adrodd ar y Cyflawniadau

Fel rhan o'r broses casglu tystiolaeth, datblygwyd cerdyn adrodd; a hynny er mwyn hwyluso'r gwaith i adrodd ar y camau gweithredu â'r dangosyddion perfformiad. Gofynnwyd i bob aelod o Fforwm Dyfodol Dwyieithog ddarparu adroddiad cynnydd ar eu maes gwasanaeth, gan ddefnyddio'r cerdyn adrodd hwn. Wedi derbyn yr holl dystiolaeth roedd yn bosib datblygu asesiad ar gyflawniad y Strategaeth, a lle bod hynny yn ymarferol bosib adrodd ar ddata.

Data Cyfrifiad

Yn dilyn rhyddhau data Cyfrifiad 2021 ar y 6ed o Ragfyr 2022, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Ymchwil a Pherfformiad, er mwyn cyhoeddi Papur Pwnc sy'n rhoi dadansoddiad mwy manwl o'r data, gan ystyried beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer defnydd y Gymraeg yng Ngheredigion. Yn ôl Comisiynydd y Gymraeg y Cyfrifiad yw'r brif ffynhonnell ddata am y Gymraeg yng Nghymru, a chaiff ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i asesu cynnydd yn erbyn y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2021.

Fe roddodd y Gwasanaeth Ymchwil a Pherfformiad gyflwyniad ar ddata'r Cyfrifiad fel rhan o agenda Pwyllgor Iaith y Cyngor a Fforwm Dyfodol Dwyieithog. Mae papur pwnc ynghylch data y Cyfrifiad yng Ngheredigion wedi cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

[cyfrifiad-2021-adroddiad-pwnc-y-gymraeg.pdf \(ceredigion.gov.uk\)](https://www.ceredigion.gov.uk/cyfrifiad-2021-adroddiad-pwnc-y-gymraeg.pdf)

Yr ydym wedi ystyried y data hwn wrth lunio ein Strategaeth Iaith newydd ar gyfer y cyfnod pum mlynedd nesaf.

Casgliadau Cyflawniad Strategaeth Iaith 2018-23

Mae'n amlwg wrth ddatblygu'r adroddiad, bod gwaith sylweddol wedi'i gyflawni o ganlyniad i weithredu'r strategaeth. Yn ystod oes y Strategaeth, mae nifer o gynlluniau bwriadus wedi mynd i'r afael a cheisio dylanwadu ar ddefnydd yr iaith; ac o ganlyniad o bosib mae statws a lle y Gymraeg wedi cynyddu yng Ngheredigion. Hyn er waethaf y ffaith bod adroddiadau Cyfrifiad 2021 yn nodi bod niferoedd siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion wedi disgyn; fodd bynnag mae canfyddiadau data niferoedd siaradwyr Cymraeg mewn adroddiadau ymchwil eraill sydd ar gael yn fwy cadarnhaol. Wrth adolygu cyrhaeddiad y Strategaeth Iaith hon rydym o'r farn ei bod yn bwysig cydnabod bod cynllunio iaith yn broses tymor hir, ac mae gweithredu er lles y Gymraeg yn cymryd amser i'w feithrin; ond trwy'r gwaith cynllunio mae'r Cyngor yn teimlo'n hyderus bod y Strategaeth Iaith hon wedi gosod y seiliau cywir ar gyfer symud ymlaen i'r cyfnod 5 mlynedd nesaf.

Strategaeth Iaith Ceredigion 2024-2029

Mae'r Cyngor wedi bod yn creu Strategaeth Iaith Ceredigion newydd ar gyfer 2024-2029 ac wedi monitro'r gwaith drwy gynnal cyfarfodydd rheolaidd Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion. Mae'r Fforwm yn cael ei gadeirio gan y Cynghorydd Catrin M S Davies, ac mae'n cynnwys Swyddogion y Cyngor, Swyddogion o sefydliadau partner ynghyd â swyddogion sefydliadau sy'n gweithredu drwy'r Gymraeg yng Ngheredigion.

Mae'r Strategaeth yn esbonio sut bydd y Cyngor drwy gydweithio â sefydliadau partner eraill (Aelodau Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion) yn mynd ati i hybu'r Gymraeg, ac i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach.

Yn unol â'r gofyniad gosodwyd targed ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion erbyn diwedd cyfnod y Strategaeth sef 2029. O ystyried tueddiadau a rhagamcanion ar gael amcangyfrifir cynnydd o 1.5% (sef oddeutu 612 yn fwy o siaradwyr Cymraeg erbyn 2029)

Mae'r gwaith o lunio Strategaeth Iaith 2024-2029 wedi gorffen, a thrwy ymgynghoriad parhaus gan aelodau'r Fforwm Dyfodol Dwyieithog mae 4 thema strategol a chamau gweithredu yn ei lle am y 5 mlynedd nesaf:

Y Strategaeth Iaith Newydd - 4 Thema Strategol

Gan barhau gyda'r gwaddol a grëwyd yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Tregaron 2022, mae'r Strategaeth Iaith wedi ymgorffori y 4 thema a amlygwyd yn ystod yr wyl fel meysydd gweithredu penodol.

Ar gyfer y strategaeth hon cytunodd fforwm Dyfodol Dwyieithog i ganolbwyntio ar 4 thema strategol fel a ganlyn;

Thema Strategol 1 – Dysgu

- Mynd i'r afael â'r camau gweithredu Thema Strategol 1 sef '**Dysgu**' sydd wedi'i nodi yn Strategaeth Iaith Ceredigion er mwyn cynyddu defnydd y Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc.

Thema Strategol 2 – Byw

- Mynd i'r afael â'r camau gweithredu Thema Strategol 2 sef '**Byw**' sydd wedi'i nodi yn Strategaeth Iaith Ceredigion er mwyn cynyddu defnydd y Gymraeg yn ein gwasanaeth ac yn y gweithle.

Thema Strategol 3 – Perthyn

- Mynd i'r afael â'r camau gweithredu Thema Strategol 3 sef '**Perthyn**' sydd wedi'i nodi yn Strategaeth Iaith Ceredigion er mwyn cynyddu defnydd yn ein cymunedau.

Thema Strategol 4 - Llwyddo

- Mynd i'r afael â'r camau gweithredu Thema Strategol 4 sef '**Llwyddo**' sydd wedi'i nodi yn Strategaeth Iaith Ceredigion er mwyn sicrhau bod holl benderfyniadau polisi y Cyngor yn ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg.

Gellir gweld copi o'r Cynllun Gweithredu yma: [Ceredigion County Council](#)

Diwygio Cylch Gorchwyl Fforwm Dyfodol Dwyieithog 2024

Ar hyn o bryd rydym yn trafod ac yn diwygio cylch gorchwyl presennol ein fforwm er mwyn cysoni y Grwpiau Strategol . Cynigir creu 4 grŵp strategol gan ddilyn y 4 Thema Strategol sydd wedi'i osod yn **Strategaeth Iaith Ceredigion 2024-2029**. Fe fydd hyn yn cael ei dreialu a'i fonitro o fis Medi 2024 ymlaen. Bwriedir cynnal cynhadledd undydd yn Haf 2025 er mwyn myfyrio ar y flwyddyn â fu ac hefyd rhoi targedau yn eu lle ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

ADRAN 3:
Adrodd ar Proses Gwyno Corfforaethol y Cyngor yn unol â
gofynion Safonau 156, 162, 168

Cafwyd tair cwyn ynghylch gweithrediad safonau'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn adrodd.

Gweler isod natur y gwyn ynghyd â'r canlyniad.

Gwasanaeth	Natur y Gwyn	Canlyniad
Porth Gofal	Diffyg Gweithwyr Cymdeithasol Cymraeg ar gael	Ymchwiliad wedi'i derfynu (oherwydd diffyg ymateb gan yr achwynydd)
Cyllid a Chaffael	Gwybodaeth wedi'i ddarparu yn Saesneg cyn y Gymraeg o fewn llythyr Trethi Busnes	Cwyn wedi'i chadarnhau – ymddiheuriad wedi'i ddarparu a dogfennau wedi'u diwygio
Porth Cymorth Cynnar	Anfonwyd e-bost at unigolion yn Saesneg yn unig	Cwyn wedi'i chadarnhau – ymddiheuriad wedi'i ddarparu a mesurau newydd wedi'u rhoi ar waith

Mae'r Cyngor yn parhau i gymryd y camau gweithredu canlynol er mwyn cydymffurfio gyda'r Safonau sy'n ymwneud â'r weithdrefn gwyno. Mae'r Safonau yn nodi bod rhaid i'r Cyngor roi gwybod i ddefnyddwyr gwasanaeth o'u hawliau wrth gyflwyno cwynion neu bryderon; ac fel eu bod hefyd yn ymwybodol bod modd iddynt gyflwyno cwynion yn eu dewis iaith;

- Mae tudalennau gwe Cwynion Corfforaethol wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau, sy'n cynnwys datganiad sy'n nodi bod y Tîm Cwynion Corfforaethol yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, drwy arddangos y frawddeg ganlynol:
- "Gall cwsmeriaid gyflwyno sylwadau, canmoliaeth neu gwynion yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn unol â'u dewis iaith."

Cwynion Corfforaethol - Cyngor Sir Ceredigion

- Mae'r **Polisi Pryderon a Chwynion Corfforaethol** wedi cael ei adolygu, mae bellach yn hysbysu'r cyhoedd y gallent gyflwyno eu cwynion yn eu hiaith ddewisol. Yn ogystal, os ydynt yn anhapus gyda'r canlyniad neu'r esboniad a ddarparwyd gan y Cyngor, fe allan nhw gyfeirio eu pryderon at Gomisiynydd y Gymraeg.

Polisi Pryderon a Chwynion Corfforaethol (ceredigion.gov.uk)

- Mae'r **Llyfryn Gweithdrefn Pryderon a Chwynion Corfforaethol** wedi'i ddiweddarau hefyd, ac mae adran 12 yn cyfeirio at y broses sut y bydd y Cyngor yn delio â chwynion a dderbynnir yn Gymraeg, neu mewn perthynas a chwynion ynghylch anfodlonrwydd lefel y gwasanaeth a dderbyniwyd yn Gymraeg.

Gweithdrefn Pryderon a Chwynion Corfforaethol (ceredigion.gov.uk)

- Mae ffurflen gwyno ar-lein ar gael o'r dudalen Cwynion Corfforaethol, sy'n caniatáu i achwynydd symud yn hwylus o'r dudalen Cymraeg i'r dudalen Saesneg.

Ffurflen Pryder/Cwyno (office.com)

- Hyfforddiant Cwynion: Mae'r hyfforddiant wedi'i addasu er mwyn rhoi gwybod i staff sut dylid delio â chwynion yn y Gymraeg, neu mewn perthynas ag anfonlonrwydd ar lefel y gwasanaeth a dderbyniwyd yn y Gymraeg.
- Mae tudalen Safonau Iaith Gymraeg ar y Wefan Gorfforaethol yn cyfeirio defnyddiwr y gwasanaeth i'r Tudalennau Gwe Cwynion Corfforaethol. [Ceredigion County Council](#)

ADRAN 4: **Casgliadau**

Cynnydd yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r cynnydd parhaus mae'r Cyngor yn ei wneud er mwyn cyflawni gofynion Safonau'r Gymraeg ynghyd â chyflwyno'r data penodol yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24.

- Mae'r Cyngor yn ymdrechu'n gyson i wneud gwelliannau parhaus, ac mae agwedd bositif a chadarnhaol yr 13 gwasanaeth o fewn Cyngor Sir Ceredigion yn profi bod ymwybyddiaeth gadarn o Safonau'r Gymraeg yn ran blaenllaw o'i gweithrediadau.
- Mae ymrwymiad y Cyngor i'r Iaith Gymraeg a'r Safonau wedi ei adlewyrchu yn y blaenoriaethau a nodwyd yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2022-27.
- Mae'n anorfod i ni grybwyll gwaith trylwyr ac effeithiol ein tiwtor cyflogedig Cynllun Cymraeg Gwaith. Dros y flwyddyn adrodd mae 81 o staff elwa o'r cynllun gwersi Cymraeg yn 2023-24. Gall y tiwtor hefyd gynnig sesiynau wedi ei teilwra i wasanaethau arbenigol. Fel awdurdod mae'r Rhaglen Cymraeg Gwaith yn darparu'r ystod gyfan o lefelau Dysgu Cymraeg.
- Mae staff hefyd wedi bod ar gwrs preswyl Codi Hyder yn Nant Gwrtheyrn ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn broffesiynol sy'n dangos ymroddiad unigolion ein gweithle.
- Cyfryngau cymdeithasol Cymraeg a Saesneg ar gael.
- Mae gweithio hybrid o fewn y Cyngor wedi'i sefydlu, a dros y flwyddyn adrodd mae timoedd bellach wedi dechrau'r arfer i gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn rheolaidd gan roi cyfle i gymdeithasu a defnyddio'r Gymraeg tra bod nifer gynyddol o staff hefyd yn defnyddio'r system ddesg dwym.
- Mae'r Cyngor yn ymwybodol iawn o'r pwysigrwydd i sicrhau bod gan y gweithlu'r sgiliau priodol er mwyn darparu'r cynnig rhagweithiol o wasanaeth Cymraeg. Mae un gwasanaeth o fewn y Cyngor er enghraifft wedi mynd ati yn rhagweithiol i ddarparu rhaglen hyfforddiant drwy'r Brifysgol Agored.
- Wrth edrych ar y data cyfredol sydd ar gael, nid yw'r nifer o bobl sy'n dewis defnyddio gwasanaethau Cymraeg y Cyngor yn cyfateb â'r nifer sy'n gallu siarad Cymraeg o fewn y Sir.
- Mae gan Gyngor Sir Ceredigion staff gweithgar ac ymroddedig sy'n siarad Cymraeg ar draws holl wasanaethau'r Cyngor, ac rydym am barhau i annog pobl i gysylltu gyda'r Cyngor yn y Gymraeg, ac i ddefnyddio'r gwasanaethau Cymraeg hynny sydd ar gael iddynt.

- Cydnabyddir bod y broses o weithredu'r Safonau yn un barhaus, gyda'r nod o sicrhau bod y gofynion yn cael eu prif lifo'n naturiol i waith y Cyngor, a bod gwasanaethau Cymraeg ar gael yn ddiofyn.
- Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i barhau i gyflawni gwelliannau, ac i weithredu er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn cyrraedd gofynion Safonau'r Gymraeg yn llawn.
- Mae'r Cyngor yn cydnabod fel rhan o'r adroddiad hwn bod cynnydd wedi ei wneud, ond bod yna welliannau i'w gwneud o hyd, er mwyn gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg ein gwasanaethau.

Meysydd Gweithredu - Yn ystod y cyfnod nesaf o weithredu'r Polisi Iaith byddwn yn anelu at ystyried y meysydd gweithredu canlynol:

- Cyhoeddi Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2024 – 2029 ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd nesaf, yn unol â Safon 145/146.
- Parhau i weithio'r gyda'r gwasanaeth Adnoddau Dynol i ymchwilio i effeithiolrwydd fframwaith a dulliau o fonitro gallu ieithyddol staff y Cyngor.
- Datblygu prosiect 'Croeso Ceredigion' ymhellach mewn ymgais i geisio cymhathu mewnudwyr; potensial i'r prosiect yma gyrraedd mwy o bobl.
- Hyrwyddo a hybu staff i fynychu sesiynau hyfforddi a gynigwyd yn Gymraeg yn unol â Safon 128/129/133.
- Annog y defnydd o #Gwena o fewn y gweithle er mwyn datblygu ymwybyddiaeth Gymreig.
- Datblygu 'Podlediad y Gweithle' er mwyn hybu a hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gweithle mewn ffordd hwylus ac ymarferol.
- Datblygu canllaw ar ddefnydd y Gymraeg ar gyfer Cyngorau Tref a Chymuned.
- Adolygu Gwefan y Cyngor, er mwyn sicrhau hygyrchedd gwybodaeth am y Gymraeg.
- Gweithio gyda staff Porth Gofal i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddiwylliant a Chymreictod mewn cartrefi preswyl.
- Mae sawl sector ar draws yr Awdurdod yn parhau i'w chael hi'n anodd iawn i recriwtio gweithwyr proffesiynol; er enghraifft mae prinder mawr o weithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol sy'n medru'r Gymraeg.
- Hyrwyddo dewis iaith ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor Sir.
- Cydweithio gyda'r Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant er mwyn sicrhau fod gwasanaethau o fewn y Cyngor yn ystyried yr effaith ar y iaith Cymraeg ym

mhob ymgynghoriad. Bydd hyn yn arwain at gydymffurfiaeth wrth ystyried gofynion statudol Safonau'r Gymraeg.

Atodiad 1**Trosolwg nifer y staff sydd â sgiliau yn y Gymraeg fesul gwasanaeth
Sgiliau Siarad a Gwranddo: 2023-2024**

Adran	Nifer staff â sgiliau Cymraeg	Canran staff â sgiliau Cymraeg
Cyswllt Cwsmeriaid, TGCh a Digidol	Dim sgiliau: 3 Lefel 1: 12 Lefel 2: 19 Lefel 3: 13 Lefel 4: 39 Lefel 5: 49 Dim cofnod: 0 Cyfanswm: 135	Dim sgiliau: 2.22 Lefel 1: 8.89 Lefel 2: 14.07 Lefel 3: 9.63 Lefel 4: 28.89 Lefel 5: 36.3 Dim cofnod: 0
Gwasanaeth Democrataidd	Dim sgiliau: 1 Lefel 1: 17 Lefel 2: 14 Lefel 3: 17 Lefel 4: 22 Lefel 5: 48 Dim cofnod: 4 Cyfanswm 123	Dim sgiliau: 0.81 Lefel 1: 13.82 Lefel 2: 11.38 Lefel 3: 13.82 Lefel 4: 17.89 Lefel 5: 39.03 Dim cofnod: 3.25
Gwasanaeth Economi ac Adfywio	Dim sgiliau: 13 Lefel 1: 85 Lefel 2: 34 Lefel 3: 30 Lefel 4: 21 Lefel 5: 35 Dim cofnod: 1 Cyfanswm 219	Dim sgiliau: 5.94 Lefel 1: 38.81 Lefel 2: 15.53 Lefel 3: 13.70 Lefel 4: 9.59 Lefel 5: 15.98 Dim cofnod: 0.46
Gwasanaeth Cyllid a Chaffael	Dim sgiliau: 1 Lefel 1: 18 Lefel 2: 26 Lefel 3: 15 Lefel 4: 16 Lefel 5: 27 Dim cofnod: 0 Cyfanswm 103	Dim sgiliau: 0.97 Lefel 1: 17.48 Lefel 2: 25.24 Lefel 3: 14.56 Lefel 4: 15.56 Lefel 5: 26.21 Dim cofnod: 0
Gwasanaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	Dim sgiliau: 5 Lefel 1: 66 Lefel 2: 45 Lefel 3: 35 Lefel 4: 44 Lefel 5: 43 Dim cofnod: 1 Cyfanswm 239	Dim sgiliau: 2.09 Lefel 1: 27.62 Lefel 2: 18.83 Lefel 3: 14.64 Lefel 4: 18.41 Lefel 5: 17.99 Dim cofnod: 0.42
Gwasanaeth Cyfreithiol a Llywodraethu	Dim sgiliau: 2 Lefel 1: 1 Lefel 2: 3 Lefel 3: 9	Dim sgiliau: 10.00 Lefel 1: 5.00 Lefel 2: 15.00 Lefel 3: 45.00

	Lefel 4: 3 Lefel 5: 2 Dim cofnod: 0 Cyfanswm 20	Lefel 4: 15.00 Lefel 5: 10.00 Dim cofnod: 0
Dysgu Gydol Oes	Dim sgiliau: 4 Lefel 1: 91 Lefel 2: 34 Lefel 3: 24 Lefel 4: 31 Lefel 5: 113 Dim cofnod: 1 Cyfanswm 298	Dim sgiliau: 1.34 Lefel 1: 30.51 Lefel 2: 11.41 Lefel 3: 80.5 Lefel 4: 10.40 Lefel 5: 37.92 Dim cofnod: 0.34
Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth	Dim sgiliau: 0 Lefel 1: 3 Lefel 2: 10 Lefel 3: 9 Lefel 4: 10 Lefel 5: 22 Dim cofnod: 0 Cyfanswm 54	Dim sgiliau: 0.00 Lefel 1: 5.56 Lefel 2: 18.52 Lefel 3: 16.67 Lefel 4: 18.52 Lefel 5: 40.74 Dim cofnod: 0.00
Gwasanaeth Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	Dim sgiliau: 0 Lefel 1: 6 Lefel 2: 7 Lefel 3: 12 Lefel 4: 15 Lefel 5: 20 Dim cofnod: 2 Cyfanswm 62	Dim sgiliau: Lefel 1: 9.68 Lefel 2: 11.29 Lefel 3: 19.35 Lefel 4: 24.19 Lefel 5: 32.26 Dim cofnod: 3.23
Gwasanaeth Porth Cymorth Cynnar	Dim sgiliau: 1 Lefel 1: 17 Lefel 2: 33 Lefel 3: 33 Lefel 4: 59 Lefel 5: 78 Dim cofnod: 2 Cyfanswm 223	Dim sgiliau: 0.45 Lefel 1: 7.62 Lefel 2: 14.80 Lefel 3: 14.80 Lefel 4: 26.46 Lefel 5: 34.98 Dim cofnod: 0.90
Gwasanaeth Porth Cynnal	Dim sgiliau: 3 Lefel 1: 25 Lefel 2: 25 Lefel 3: 21 Lefel 4: 14 Lefel 5: 25 Dim cofnod: 0 Cyfanswm 113	Dim sgiliau: 2.65 Lefel 1: 22.12 Lefel 2: 21.12 Lefel 3: 18.58 Lefel 4: 12.39 Lefel 5: 22.12 Dim cofnod: 0
Porth Gofal	Dim sgiliau: 25 Lefel 1: 75 Lefel 2: 47 Lefel 3: 68 Lefel 4: 32 Lefel 5: 58	Dim sgiliau: 6.60 Lefel 1: 19.79 Lefel 2: 12.4 Lefel 3: 17.94 Lefel 4: 8.44 Lefel 5: 15.3

	Dim cofnod: 74 Cyfanswm 379	Dim cofnod: 19.53
Gwasanaeth Ysgolion	Dim sgiliau: 4 Lefel 1: 15 Lefel 2: 14 Lefel 3: 5 Lefel 4: 10 Lefel 5: 117 Dim cofnod: 3 Cyfanswm 168	Dim sgiliau: 2.38 Lefel 1: 8.93 Lefel 2: 8.33 Lefel 3: 2.98 Lefel 4: 5.95 Lefel 5: 69.64 Dim cofnod: 1.79

Atodiad 1**Trosolwg nifer y staff sydd â sgiliau yn y Gymraeg fesul gwasanaeth
Sgiliau Ysgrifennu: 2023-2024**

Adran	Nifer staff â sgiliau Cymraeg	Canran staff â sgiliau Cymraeg
Cyswllt Cwsmeriaid, TGCh a Digidol	Dim sgiliau: 7 Lefel 1: 17 Lefel 2: 21 Lefel 3: 21 Lefel 4: 32 Lefel 5: 37 Dim cofnod: 0 Cyfanswm 135	Dim sgiliau: 5.19 Lefel 1: 12.59 Lefel 2: 15.56 Lefel 3: 15.56 Lefel 4: 23.70 Lefel 5: 27.41 Dim cofnod: 0
Gwasanaeth Democrataidd	Dim sgiliau: 4 Lefel 1: 20 Lefel 2: 14 Lefel 3: 14 Lefel 4: 30 Lefel 5: 38 Dim cofnod: 3 Cyfanswm 123	Dim sgiliau: 3.25 Lefel 1: 16.26 Lefel 2: 11.38 Lefel 3: 11.38 Lefel 4: 24.39 Lefel 5: 30.89 Dim cofnod: 3
Gwasanaeth Economi ac Adfywio	Dim sgiliau: 16 Lefel 1: 97 Lefel 2: 35 Lefel 3: 23 Lefel 4: 18 Lefel 5: 29 Dim cofnod: 1 Cyfanswm 219	Dim sgiliau: 7.31 Lefel 1: 44.29 Lefel 2: 15.98 Lefel 3: 10.50 Lefel 4: 8.22 Lefel 5: 13.24 Dim cofnod: 0.46
Gwasanaeth Cyllid a Chaffael	Dim sgiliau: 3 Lefel 1: 24 Lefel 2: 27 Lefel 3: 10 Lefel 4: 18 Lefel 5: 21 Dim cofnod: 0 Cyfanswm 103	Dim sgiliau: 2.91 Lefel 1: 23.30 Lefel 2: 26.21 Lefel 3: 9.71 Lefel 4: 17.48 Lefel 5: 20.39 Dim cofnod: 0
Gwasanaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	Dim sgiliau: 19 Lefel 1: 91 Lefel 2: 47 Lefel 3: 38 Lefel 4: 20 Lefel 5: 23 Dim cofnod: 1 Cyfanswm 239	Dim sgiliau: 7.95 Lefel 1: 38.08 Lefel 2: 19.67 Lefel 3: 15.90 Lefel 4: 8.37 Lefel 5: 9.62 Dim cofnod: 0.42
Gwasanaeth Cyfreithiol a Llywodraethu	Dim sgiliau: 2 Lefel 1: 1 Lefel 2: 7 Lefel 3: 5	Dim sgiliau: 10 Lefel 1: 5 Lefel 2: 35 Lefel 3: 25

	Lefel 4: 3 Lefel 5: 2 Dim cofnod: 0 Cyfanswm 20	Lefel 4: 15 Lefel 5: 10 Dim cofnod: 0
Dysgu Gydol Oes	Dim sgiliau: 9 Lefel 1: 99 Lefel 2: 37 Lefel 3: 21 Lefel 4: 52 Lefel 5: 79 Dim cofnod: 1 Cyfanswm 298	Dim sgiliau: 3.05 Lefel 1: 33.22 Lefel 2: 12.42 Lefel 3: 7.05 Lefel 4: 17.45 Lefel 5: 26.51 Dim cofnod: 0.34
Pobl a Threfniadaeth	Dim sgiliau: 0 Lefel 1: 6 Lefel 2: 10 Lefel 3: 10 Lefel 4: 8 Lefel 5: 20 Dim cofnod: 0 Cyfanswm 54	Dim sgiliau: 0 Lefel 1: 11.11 Lefel 2: 18.52 Lefel 3: 18.82 Lefel 4: 14.81 Lefel 5: 37.04 Dim cofnod: 0
Gwasanaeth Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	Dim sgiliau: 0 Lefel 1: 10 Lefel 2: 9 Lefel 3: 13 Lefel 4: 17 Lefel 5: 10 Dim cofnod: 3 Cyfanswm 62	Dim sgiliau: 0 Lefel 1: 16.13 Lefel 2: 14.52 Lefel 3: 20.97 Lefel 4: 27.42 Lefel 5: 16.13 Dim cofnod: 4.84
Gwasanaeth Porth Cymorth Cynnar	Dim sgiliau: 5 Lefel 1: 27 Lefel 2: 39 Lefel 3: 10 Lefel 4: 45 Lefel 5: 65 Dim cofnod: 2 Cyfanswm 223	Dim sgiliau: 2.24 Lefel 1: 12.11 Lefel 2: 17.49 Lefel 3: 79.94 Lefel 4: 20.18 Lefel 5: 29.15 Dim cofnod: 0.90
Gwasanaeth Porth Cynnal	Dim sgiliau: 9 Lefel 1: 29 Lefel 2: 26 Lefel 3: 13 Lefel 4: 13 Lefel 5: 23 Dim cofnod: 0 Cyfanswm 113	Dim sgiliau: 7.96 Lefel 1: 25.66 Lefel 2: 23.01 Lefel 3: 11.50 Lefel 4: 11.50 Lefel 5: 20.35 Dim cofnod: 0
Porth Gofal	Dim sgiliau: 52 Lefel 1: 64 Lefel 2: 60 Lefel 3: 46 Lefel 4: 37 Lefel 5: 47	Dim sgiliau: 15.3 Lefel 1: 17.94 Lefel 2: 16.89 Lefel 3: 13.46 Lefel 4: 7.39 Lefel 5: 9.76

	Dim cofnod: 73 Cyfanswm 379	Dim cofnod: 19.26
Gwasanaeth Ysgolion	Dim sgiliau: 8 Lefel 1: 19 Lefel 2: 8 Lefel 3: 5 Lefel 4: 14 Lefel 5: 110 Dim cofnod: 4 Cyfanswm 168	Dim sgiliau: 4.76 Lefel 1: 11.31 Lefel 2: 4.76 Lefel 3: 2.98 Lefel 4: 8.33 Lefel 5: 65.48 Dim cofnod: 2.38

Atodiad 1**Trosolwg nifer y staff sydd â sgiliau yn y Gymraeg fesul gwasanaeth
Sgiliau Darllen: 2023-2024**

Adran	Nifer staff â sgiliau Cymraeg	Canran staff â sgiliau Cymraeg
Cyswllt Cwsmeriaid, TGCh a Digidol	Dim sgiliau: 4 Lefel 1: 17 Lefel 2: 22 Lefel 3: 16 Lefel 4: 30 Lefel 5: 46 Dim cofnod: 0 Cyfanswm 135	Dim sgiliau: 2.96 Lefel 1: 12.59 Lefel 2: 16.3 Lefel 3: 11.85 Lefel 4: 22.22 Lefel 5: 34.07 Dim cofnod: 0
Gwasanaeth Democrataidd	Dim sgiliau: 4 Lefel 1: 15 Lefel 2: 17 Lefel 3: 12 Lefel 4: 27 Lefel 5: 44 Dim cofnod: 4 Cyfanswm 123	Dim sgiliau: 3.25 Lefel 1: 12.2 Lefel 2: 13.82 Lefel 3: 9.76 Lefel 4: 21.95 Lefel 5: 35.77 Dim cofnod: 3.25
Gwasanaeth Economi ac Adfywio	Dim sgiliau: 16 Lefel 1: 93 Lefel 2: 28 Lefel 3: 29 Lefel 4: 22 Lefel 5: 30 Dim cofnod: 1 Cyfanswm 219	Dim sgiliau: 7.31 Lefel 1: 42.47 Lefel 2: 12.79 Lefel 3: 13.24 Lefel 4: 10.05 Lefel 5: 13.70 Dim cofnod: 0.46
Gwasanaeth Cyllid a Chaffael	Dim sgiliau: 3 Lefel 1: 23 Lefel 2: 22 Lefel 3: 10 Lefel 4: 18 Lefel 5: 27 Dim cofnod: 0 Cyfanswm 103	Dim sgiliau: 2.91 Lefel 1: 22.33 Lefel 2: 21.36 Lefel 3: 9.71 Lefel 4: 17.48 Lefel 5: 26.21 Dim cofnod: 0
Gwasanaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	Dim sgiliau: 18 Lefel 1: 77 Lefel 2: 43 Lefel 3: 45 Lefel 4: 26 Lefel 5: 30 Dim cofnod: 0 Cyfanswm 239	Dim sgiliau: 7.53 Lefel 1: 32.22 Lefel 2: 17.99 Lefel 3: 8.83 Lefel 4: 10.88 Lefel 5: 12.55 Dim cofnod: 0
Gwasanaeth Cyfreithiol a Llywodraethu	Dim sgiliau: 2 Lefel 1: 1 Lefel 2: 7 Lefel 3: 5	Dim sgiliau: 10.00 Lefel 1: 5.00 Lefel 2: 35.00 Lefel 3: 25.00

	Lefel 4: 4 Lefel 5: 1 Dim cofnod: 0 Cyfanswm 20	Lefel 4: 20.00 Lefel 5: 5.00 Dim cofnod: 0.00
Dysgu Gydol Oes	Dim sgiliau: 8 Lefel 1: 96 Lefel 2: 33 Lefel 3: 23 Lefel 4: 48 Lefel 5: 90 Dim cofnod: 0 Cyfanswm 298	Dim sgiliau: 2.68 Lefel 1: 32.21 Lefel 2: 11.07 Lefel 3: 7.72 Lefel 4: 16.11 Lefel 5: 30.20 Dim cofnod: 0
Pobl a Threfniadaeth	Dim sgiliau: 0 Lefel 1: 6 Lefel 2: 9 Lefel 3: 9 Lefel 4: 8 Lefel 5: 22 Dim cofnod: 0 Cyfanswm 54	Dim sgiliau: 0 Lefel 1: 11.11 Lefel 2: 16.67 Lefel 3: 16.67 Lefel 4: 14.81 Lefel 5: 40.74 Dim cofnod: 0
Gwasanaeth Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	Dim sgiliau: 0 Lefel 1: 8 Lefel 2: 11 Lefel 3: 9 Lefel 4: 15 Lefel 5: 17 Dim cofnod: 2 Cyfanswm 62	Dim sgiliau: 0 Lefel 1: 12.9 Lefel 2: 17.74 Lefel 3: 14.52 Lefel 4: 24.19 Lefel 5: 27.42 Dim cofnod: 3.23
Gwasanaeth Porth Cymorth Cynnar	Dim sgiliau: 3 Lefel 1: 26 Lefel 2: 37 Lefel 3: 44 Lefel 4: 40 Lefel 5: 71 Dim cofnod: 2 Cyfanswm 223	Dim sgiliau: 1.35 Lefel 1: 11.66 Lefel 2: 16.59 Lefel 3: 19.73 Lefel 4: 17.94 Lefel 5: 31.84 Dim cofnod: 0.90
Gwasanaeth Porth Cynnal	Dim sgiliau: 9 Lefel 1: 25 Lefel 2: 28 Lefel 3: 11 Lefel 4: 17 Lefel 5: 23 Dim cofnod: 0 Cyfanswm 113	Dim sgiliau: 7.96 Lefel 1: 22.12 Lefel 2: 24.78 Lefel 3: 9.73 Lefel 4: 15.0 Lefel 5: 20.35 Dim cofnod: 0
Gwasanaeth Gofal	Dim sgiliau: 52 Lefel 1: 64 Lefel 2: 60 Lefel 3: 46 Lefel 4: 37 Lefel 5: 47	Dim sgiliau: 13.72 Lefel 1: 16.89 Lefel 2: 15.83 Lefel 3: 12.14 Lefel 4: 9.76 Lefel 5: 12.40

	Dim cofnod: 73 Cyfanswm 379	Dim cofnod: 19.26
Gwasanaeth Ysgolion	Dim sgiliau: 6 Lefel 1: 15 Lefel 2: 13 Lefel 3: 7 Lefel 4: 10 Lefel 5: 114 Dim cofnod: 3 Cyfanswm 168	Dim sgiliau: 3.57 Lefel 1: 8.93 Lefel 2: 7.74 Lefel 3: 4.17 Lefel 4: 5.95 Lefel 5: 67.86 Dim cofnod: 1.79